

---

# Adroddiad Blynyddol 2014–15

# Annual Report 2014–15



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



---

**Adroddiad Blynyddol  
2014–15**

**Annual Report  
2014–15**

---

---

# Cynnwys

2

---

Adroddiad Strategol	4
Atebolrwydd	92
Datganiadau Ariannol	124
Atodiad	166
Cysylltu	234

---

---

# Contents

3

---

Strategic Report	5
Accountability	93
Financial Statements	125
Appendix	167
Contact	235

---

---

# Adroddiad Strategol

---

Rhagair	6
Nod, gweledigaeth a gwerthoedd	12
Heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad	14
Gweithgareddau a chyflawniadau 2014–15	16
Cynlluniau ar gyfer 2015–17	84
Cyd-destun y Gymraeg 2014–15	86

---

---

# Strategic Report

---

Foreword	7
Aim, vision and values	13
Significant challenges facing the organization	15
Activities and achievements 2014–15	17
Plans for 2015–17	85
Context of the Welsh language 2014–15	87

---

---

## Rhagair

Creu Cymru lle na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yw un o fy egwyddorion cyffredinol i fel Comisiynydd y Gymraeg. Nid yw egwyddor fel hon yn rhywbeth gaiff ei gwireddu a'i chyflawni dros nos, a bydd angen cerdded a llamu nifer o gamau, bach a mawr, i gyrraedd y nod. Mae pob un o'r camau hynny'n bwysig, ac yn mynd â ni yn agosach at Gymru lle gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cipolwg ar y camau a gymerwyd gennym fel sefydliad yn ystod y deuddeg mis diwethaf a geir yn yr adroddiad hwn.

Bu'r broses o gyflwyno safonau'r Gymraeg yn un hir a llafurus dros y tair blynedd diwethaf. Ond erbyn diwedd Mawrth 2015 roedd y Cynulliad wedi pasio'r rheoliadau fydd yn fy ngalluogi i a'm swyddogion i osod safonau ar y cylch cyntaf o sefydliadau. Nod y safonau yw cysoni a chryfhau dyletswyddau iaith sefydliadau a rhoi mwy o eglurder i'r dinesydd ynghylch beth yw ei hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Unwaith y bydd sefydliadau'n gweithredu o dan y gyfundrefn hon, bydd fy mhwerau gorfodi i fel Comisiynydd yn dod i rym.

Yn yr un modd â gydag unrhyw gyfundrefn gyfreithiol, mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn deall beth yw eu hawliau a beth allant ei wneud os na chânt ddefnyddio'r Gymraeg fel maent yn dymuno. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd yn cael eu clywed, datblygwyd cyfres o fideos a hysbysebion er mwyn cyfleu'r wybodaeth mewn modd syml a chofiadwy, ac aed allan i'r cymunedau i siarad â phobl yn uniongyrchol. Bydd y gwaith o gynnal y drafodaeth hon ac estyn allan i'r cyhoedd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf, a byddaf yn chwilio am ffyrdd amrywiol a newydd o gyrraedd gwahanol grwpiau neu garfannau o gymdeithas.

Amlygwyd pwysigrwydd hanfodol gwranddo ar farn a chwynion y cyhoedd mewn dau achos nodedig eleni. Un ohonynt oedd achos pan geisiodd meddyg mewn ysbyty atal rhiant a phlentyn rhag siarad â'i gilydd yn Gymraeg pan oedd y plentyn yn derbyn triniaeth mewn adran damweiniau a brys, a'r llall oedd achos lle methodd bwrdd iechyd â darparu gwasanaeth nyrs ysgol yn Gymraeg i blant ifanc. Yn y ddau achos yma, fe gysylltodd rhieni er mwyn ceisio cyfiawnder a gwasanaeth fyddai'n parchu anghenion iaith eu plant. Defnyddiwyd pwerau statudol i argymhell ffyrdd i fynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau gwell profiad i gleifion yn y dyfodol. Roedd y ddau achos yn neges gref i sefydliadau eraill o bwysigrwydd parchu angen iaith defnyddwyr gwasanaeth.

---

## Foreword

Creating a Wales where the Welsh language is treated no less favourably than English is one of my general principles as Welsh Language Commissioner. Such a principle is not something that can be realised and achieved overnight, and a number of steps, both major and minor, need to be taken in order to achieve the aim. All these steps are important, and take us closer to a Wales in which people can live their lives through the medium of Welsh. This report is a snapshot of the actions we have taken as an organization over the last twelve months.

The process of introducing Welsh language standards has been lengthy and laborious over the last three years. However, by the end of March 2015 the Assembly had passed the regulations which will enable me and my officers to impose the standards on the first round of organizations. The aim of the standards is to standardize and strengthen the language duties of organizations and to provide the citizen with greater clarity regarding his / her rights to use the Welsh language. Once organizations are operating under this system, my enforcement powers as Commissioner will come into force.

As with any legal system, it is vital that the public understand their rights and what they can do if they are not able to use the Welsh language as they choose. In order to raise awareness of the rights to use Welsh and to ensure that the public's voice and concerns are heard a series of videos and adverts were developed to convey the information in a simple and memorable way, and we also went out into the community to talk to people directly. The work of conducting this dialogue and of reaching out to the public will continue over the coming years, and we will be looking for new and varied ways of reaching various groups or sections of society.

The vital importance of listening to opinions and complaints was highlighted in two notable cases this year. One of them was a case in which a doctor at a hospital tried to stop a parent and child from speaking Welsh to each other when the child was receiving treatment in an A&E department, and the other was a case in which a health board failed to provide a school nurse service in Welsh for young children. In these two cases the parents contacted us to seek both justice and a service that would respect the linguistic needs of their children. We used our statutory powers to recommend ways of resolving these individual matters and to ensure a better experience for patients in the future. Both cases gave a strong message to other organizations regarding the importance of respecting the linguistic need of service-users.

Un o'r darnau o waith sy'n rhoi'r mwyaf o falchder i mi yw'r adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin y llynedd, sef adroddiad ymholiad statudol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r adroddiad yn ffrwyth ymchwil sylweddol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gyda gweithwyr y sector. Mae'n faes sy'n cyffwrdd yn uniongyrchol â bywydau pob un ohonom, ac y mae'n faes lle mae defnyddio'r Gymraeg yn angen clinigol gwirioneddol. Llais defnyddwyr sydd i'w glywed yn yr adroddiad a phrofiad defnyddwyr yw sail y 33 argymhelliad a wnaed i wella'r gwasanaeth. Ers ei gyhoeddi, nid yw'r adroddiad wedi bod yn eistedd yn segur ar silff, mae wedi cael ei ddefnyddio fel sail i drafodaethau a seminarau gyda'r sector. Ymatebodd y Gweinidog Iechyd yn ffurfiol i'r adroddiad ac mae'r Llywodraeth wedi paratoi rhaglen waith er mwyn cyflawni argymhellion sy'n ymwneud â chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol a chydnabod urddas cleifion.

Pwnc a hawliodd sylw yn ystod y flwyddyn oedd effaith cynllunio ar y Gymraeg. Wrth i'r Bil Cynllunio (Cymru) newydd gael ei lunio, roedd cyfle gwirioneddol i greu cyfraith a fyddai'n unigryw ac yn addas i anghenion ein cymunedau. Nid oeddwn yn teimlo bod drafft cynharaf y Bil yn mynd yn agos at sicrhau'r warchodaeth hanfodol i barhad cymunedau Cymraeg, a bûm yn pwysu'n gyson ar y Llywodraeth i'w addasu. Yn dilyn dadl a phleidlais yn y Cynulliad ddechrau Mai 2015 sefydlwyd sail statudol i'r angen i ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio. Bu'r broses o ystyried y Gymraeg mewn penderfyniadau cynllunio yn ddibynnol ar gyngor a chanllawiau yn unig yn llawer rhy hir, ond pan ddaw'r Bil yn gyfraith bydd dyletswyddau statudol ar awdurdodau cynllunio i asesu effaith eu polisiau cynllunio ar y Gymraeg. Mae'r Bil hefyd yn cadarnhau gall y Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol, ac mae hyn yn gam sylweddol ymlaen. Bydd angen diwygio polisi cynllunio a Nodyn Cyngor Technegol 20 ar gynllunio a'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod trefn gyson ar gyfer gweithredu'r adrannau sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y Bil. Rwy'n nodi bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol eisoes wedi ymrwymo i hynny ar lawr y Senedd, felly disgwyliaf y bydd hyn yn digwydd yn gyflym.

Nid rheoleiddiwr yn unig yw Comisiynydd y Gymraeg, wrth gwrs. Mae busnesau a sefydliadau trydydd sector yn cael llawn gymaint o effaith ar fywydau dinasyddion yng Nghymru ag y caiff sefydliadau cyhoeddus, a dyna pam y rhoddwyd ymdrech arbennig eleni i roi cyfeiriad eglur i'r sefydliadau hyn o ran defnyddio'r Gymraeg. Wedi i aelodau o'r cyhoedd gysylltu a dwyn sylw at y dirywiad sylweddol yng ngwasanaethau Cymraeg eu banciau, fe gynhaliwyd adolygiad statudol er mwyn edrych yn fanylach ar y defnydd o'r iaith gan y sector ariannol, a banciau'r stryd fawr yn benodol. Byddaf yn defnyddio'r adroddiad fel sail i drafodaethau caled gyda'r banciau fel eu bod yn cynnig gwasanaethau sy'n cwrdd â gofynion iaith eu cwsmeriaid.

One of the pieces of work that gives me the greatest pride is the 'My Language, My Health' report published in June last year, a statutory inquiry report into the use of the Welsh language in primary care services. The report is the result of substantial research with service users and with workers in the sector. It is an area that has a direct effect on all our lives, and it is an area where using the Welsh language is a real and clinical need. The report gives voice to service users and their experiences are the basis for the 33 recommendations made to improve the service. Since its publication, the report has not been sitting idly on a shelf; it has been used as a basis for discussions and seminars with the sector. The Health Minister has responded formally to the report and the Government has prepared a work programme in order to carry out the recommendations involving the proactive offer of Welsh language services and acknowledging the dignity of patients.

A topic that commanded much attention during the year was the impact of planning on the Welsh language. As the new Planning Bill (Wales) was drafted, there was a real opportunity to create legislation that would be unique and appropriate to the needs of our communities. I did not feel that the earliest draft of the Bill went anywhere near securing the vital protection for the continuance of Welsh speaking communities, and we consistently pressed the Government to amend it. Following a debate and vote in the Assembly at the beginning of May 2015 a statutory basis was established for the need to consider the Welsh language in the planning system. For far too long, the process of considering the Welsh language in planning decisions depended on advice and guidelines only, but when the Bill becomes law there will be statutory duty on planning authorities to assess the effect of their planning policies on the Welsh language. The Bill also confirms that the Welsh language may be a consideration in determining individual planning applications, and this is a substantial step forward. Planning policy and Technical Advice Note 20, which deals with the Welsh language and planning, will need to be revised in order to ensure a consistent approach in implementing the sections in the Bill relevant to the Welsh language. I note that the Minister for Natural Resources, when speaking in the Senedd, has already committed to doing this and I expect it to happen quickly.

The Welsh Language Commissioner is not just a regulator, of course. Businesses and third sector organizations have as much effect on the lives of citizens in Wales as have public organizations, and that is why a special effort was made this year to give these organizations a clear direction in terms of using the Welsh language. After members of the public got in contact and drew attention to the substantial deterioration in the Welsh language services offered by their banks, we held a statutory review to look in more detail at the use of the language by the financial sector, and high street banks in particular. I will use the report as a basis for focussed discussions with the banks to ensure that they offer services that meet the language requirements of their customers.

Drwy greu gwefan newydd ar gyfer busnesau a sefydliadau trydydd sector mae yna, am y tro cyntaf erioed, un man lle gall sefydliadau droi ato am gymorth ymarferol, cyngor arbenigol, ymchwil defnyddiol ac astudiaethau achos perthnasol ynghylch defnyddio'r Gymraeg.

Rwy'n llunio'r geiriau hyn ar fore Etholiad Cyffredinol ac erbyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, byddwn yn gwybod ei ganlyniad. Er bod blwyddyn tan Etholiad y Cynulliad, mae'r ymgyrchu answyddogol eisoes wedi cychwyn. Mae'n gyfnod o ansicrwydd gwleidyddol ar un olwg, ond ar yr un pryd mae'n cynnig cyfle i ddylanwadu ar bolisïau, cynlluniau a rhaglenni deddfu'r llywodraethau newydd.

Mae tair blynedd ers i mi gychwyn fel Comisiynydd, ac ers i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddechrau cael ei weithredu. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yn ystod y tair blynedd yw pa mor weinyddol feichus yw rhannau o'r ddeddfwriaeth. Ffrwyth hen gyfundrefn gyfreithiol y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol — yr LCO gynt — yw Mesur y Gymraeg, pan nad oedd gan Gymru bwerau deddfu llawn ei hun, a phan oedd gwleidyddion San Steffan yn craffu ar fesurau Cymreig. Gyda Chymru, ers hynny, wedi ennill pwerau deddfu llawn, credaf ei bod hi'n amserol i fynd yn ôl at y Mesur i'w gryfhau a'i lyfnhau er mwyn gwarchod hawliau a sicrhau cyfiawnder i bobl Cymru. Byddaf hefyd yn ceisio mwy o sicrwydd o gyllideb a ffynhonnell gyllido, gan fod yna risg wirioneddol y gallai parhau i dorri'r gyllideb i'r graddau a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf gael effaith niweidiol iawn ar y gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol.

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg



A new website for third sector organizations and businesses has provided, for the first time ever, a central place where organizations can turn for practical support, expert advice, useful research and relevant case studies regarding the use of Welsh.

I write these words on the morning of the General Election, the result of which is known by the time this report is published. Even though there is a year until the Assembly Election, the unofficial campaigning has already begun. In one way it is a period of political uncertainty, but at the same time it poses an opportunity to influence the policies, plans and legislative programmes of the new governments.

Three years have passed since I started in my role as Commissioner, and since the Welsh Language (Wales) Measure 2011 was implemented for the first time. What has become apparent during these three years is how administratively onerous some parts of the legislation are. The Welsh Language Measure is the result of the former legislative system — the Legislative Competence Order (LCO) — when Wales did not have full legislative powers, and when Westminster politicians scrutinised Welsh measures. With Wales having gained full legislative powers since then, I believe it is timely to return to the Measure and to strengthen and streamline it in order to protect the rights and ensure justice for the people of Wales. We will also seek more certainty regarding our budget and source of funding, as there is a real risk that continuing to cut our budget to the same extent as the last two years could have a very detrimental effect on our ability to carry out our statutory responsibilities.

**Meri Huws**  
Welsh Language Commissioner

A handwritten signature in blue ink that reads 'Meri Huws'. The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line.

---

## Nod, gweledigaeth a gwerthoedd

### Nod

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac i ddyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith, sef yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015–17 yn egluro sut yn union y bwriedir gweithio tuag at gyflawni nod cyffredinol y Comisiynydd dros y ddwy flynedd nesaf.

### Gweledigaeth a gwerthoedd

Dros amser, dyhead y Comisiynydd yw gweld:

- Y Gymraeg wrth galon polisi yng Nghymru
- Defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu
- Gwell profiad i ddefnyddwyr y Gymraeg yn sgil gwaith rheoleiddio
- Mynediad at gyfiawnder i unigolion mewn perthynas â'r Gymraeg
- Arloesi wrth hybu a hwyluso isadeiledd y Gymraeg.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol a gwireddu camau cychwynnol y weledigaeth, bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd. Wrth ffurfio barn bydd y Comisiynydd yn gadarn gan roi sicrwydd i'r defnyddiwr. Bydd yn defnyddio pob cyfle i fod yn rhagweithiol ac i dorri tir newydd er mwyn ysgogi newid a gwella parhaus. Er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg, bydd yn llais dros siaradwyr Cymraeg. I feithrin amgylchedd gweithio iach sy'n cefnogi ei weithwyr ac yn ceisio eu barn, ac er mwyn bod yn sefydliad sy'n dysgu o brofiad, bydd yn agored ac yn deg.

---

## Aim, vision and values

### Aim

The principal aim of the Welsh Language Commissioner is to promote and facilitate the use of the Welsh language. In so doing, the Commissioner will try to increase the use of Welsh in the provision of services, and through other opportunities. Also, the Commissioner will focus on the official status of the Welsh language in Wales and on the duties, imposed by law, to use the Welsh language, and the rights arising from the ability to enforce those duties.

Two principles underpin the work of the Commissioner. The first is the principle that in Wales the Welsh language should be treated no less favourably than the English language and secondly that persons in Wales should be able to live their lives through the medium of Welsh if they choose to do so.

The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2015–17 explains how exactly it proposes to work towards attaining the Commissioner's general aim over the next two years.

### Vision and values

Over time, the Commissioner desires to see:

- The Welsh language at the heart of policy in Wales
- Use of the Welsh language increasing
- A better experience for Welsh language users as a result of regulation
- Access to justice for individuals in respect of the Welsh language
- Innovation in promoting and facilitating the infrastructure of the Welsh language.

In carrying out statutory functions and realising the initial stages of this vision, the Commissioner and the Commissioner's officers will operate on the basis of core values. In forming an opinion the Commissioner will be firm, providing assurance to the user. The Commissioner will take every opportunity to be proactive and innovative in order to encourage continuous change and improvement. In order to contribute towards increasing the use of the Welsh language, the Commissioner will be a voice for Welsh language users. In order to develop a healthy working environment that supports its workers and seeks their opinions, and in order to be an organization that learns from experience, the Commissioner will be open and fair.



---

## Heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad

### Cyllid

Mae'r hinsawdd economaidd yn golygu bod yr esgid yn gwasgu i'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus y dyddiau hyn, ac mae'r Comisiynydd yn ystyried y ffyrdd mwyaf cost-effeithiol o weithredu ei swyddogaethau. Er hynny, gyda'i swyddogaethau'n cynyddu wrth i wahanol adrannau o Fesur y Gymraeg ddod yn weithredol, gall fod yn heriol parhau i weithredu'n effeithiol heb sicrydd bod y gyllideb yn cael ei chynnal. Ers sefydlu'r Comisiynydd yn 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud toriad o 25% i'r gyllideb mewn termau real.

Er bod arbedion wedi eu cynllunio yn Amcangyfrif 2015–16; mae ffactorau tu hwnt i ddylanwad y rheolwyr yn rhoi pwysau ariannol ar y sefydliad.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg at Brif Weinidog Cymru ar 25 Mawrth 2015 yn codi mater cynladwyedd ariannol y sefydliad i'r dyfodol a'r risg y byddai toriadau pellach i'r gyllideb yn ei beri ar allu'r sefydliad i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

### Gweithredu'r gyfraith

Un o'r heriau mwyaf yw gweithredu'n unol â dwy ddeddfwriaeth, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Wrth bontio rhwng y gyfundrefn cynlluniau iaith a'r gyfundrefn safonau mae'n bwysig i'r Comisiynydd sicrhau nad yw'r cyfnod trosiannol yn effeithio'n negyddol ar y cyfleoedd i'r dinesydd ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg yn ddarn cymharol newydd o ddeddfwriaeth, ac mae'r prosesau statudol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn gosod safonau ar sefydliadau'n dibynnu nid yn unig ar amserlen a bennir gan y Comisiynydd, ond ar amserlen Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal.

### Strwythur y sefydliad

Yn ystod 2014–2015 fe ailstrwythurwyd y sefydliad. Golygai hyn sefydlu cyfarwyddiaethau newydd a phenodi swyddogion i rolau newydd. Parhawyd i weithredu'n swyddogaethau'n llawn yn ystod y cyfnod hwn, ac erbyn tymor yr hydref 2014, roedd y strwythur newydd yn ei le.

---

## Significant challenges facing the organization

### Funding

The economic climate means that there is a squeeze on most public organizations these days, and the Commissioner considers the most cost-effective means of exercising her functions. However, with her role expanding as various sections of the Welsh Language Measure come into force, it can be challenging to operate effectively without an assurance that the budget will be maintained. Since the Commissioner was established in 2012, the Welsh Government has cut the budget by 25% in real terms.

Although savings have been planned for in the Estimate for 2015–16; factors beyond the influence of management place financial pressure on the organization.

The Chair of the Audit and Risk Committee wrote to the First Minister on 25 March 2015 raising the issue of the future financial sustainability of the organization and the risk that further budget cuts would pose on the organization's ability to exercise its functions effectively.

### Implementing the law

One of the greatest challenges is to operate in accordance with two pieces of legislation, the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. In bridging between the Welsh language scheme system and standards it is important for the Commissioner to ensure that the transitional period does not negatively affect the opportunities for citizens to use the Welsh language.

The Welsh Language Measure is a comparatively new piece of legislation, and the statutory processes that must be followed in order to impose standards on organizations depend not only on the timetable set by the Commissioner, but on the Welsh Government and the National Assembly for Wales's timetables as well.

### Structure of the organization

During 2014–2015 the organization was restructured. This meant establishing new directorates and appointing officers to new roles. The Commissioner continued to exercise her functions fully during this period, and by the autumn of 2014, the new structure was in place.

---

## Gweithgareddau a chyflawniadau 2014–15

Roedd Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2013–15 yn gosod seiliau gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Amcanion strategol:

1. Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
2. Gwrando ar farn a phryderon am y Gymraeg a cheisio sicrhau cyfiawnder i unigolion
3. Ehangu a chryfhau ymrwymiadau iaith Gymraeg sefydliadau a gwella profiad siaradwyr Cymraeg
4. Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
5. Creu sefydliad iach a gweithredu'n briodol

---

## Activities and achievements 2014–15

The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2013–15 laid the foundations for the Commissioner's work and priorities.

Strategic objectives:

1. To influence the consideration given to the Welsh language in policy developments
2. To listen to opinions and concerns about the Welsh language and to try to ensure justice for individuals
3. To broaden and strengthen the Welsh language commitments of organizations and improve the experience of Welsh speakers
4. To promote and facilitate the use of the Welsh language
5. To create a healthy organization and operate appropriately

## Amcan strategol 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

Mae datblygiadau polisi a deddfwriaeth yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Amcan y Comisiynydd yw dylanwadu ar y rhai sy'n creu polisi fel bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisiau a deddfwriaeth.

Defnyddir amrediad o wahanol dulliau i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi. Yn ystod 2014–15 roedd y rhain yn cynnwys defnyddio pwerau statudol i gynnal ymholiad ac i gyflwyno cyngor, cynnal neu gomisiynu gwaith ymchwil, ymateb i ymgynghoriadau, cyflwyno tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i bwyllgorau a chynnal trafodaeth barhaus â llunwyr polisi.

### Dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth yng Nghymru

#### Cyfarfodydd strategol

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion Cymru mewn amrywiol feysydd polisi i drafod materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r Gymraeg a'i defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol â'r Prif Weinidog yn rhinwedd ei rôl fel Gweinidog â chyfrifoldeb am y Gymraeg.

#### Tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i bwyllgorau

Rhoddyd tystiolaeth lafar gerbron pump o bwyllgorau yn y Cynulliad yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol', tystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol 2013–14 i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ystyriaethau iaith yn y Bil Cynllunio i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a thystiolaeth am ddeddfu a'r Gymraeg i'r Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol.

#### Y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio

Sail y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru yw deddfau a wnaed yn San Steffan, sef Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Caiff y deddfau hyn eu hategu gan reoliadau ac is-ddeddfwriaeth a basiwyd yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn ymgais gan y Llywodraeth i symleiddio'r gyfundrefn ddeddfwriaethol gymhleth hon.

Er bod cyfeiriadau at y Gymraeg yn y polisi cynllunio cenedlaethol, yn wahanol i agweddau eraill o'r gyfundrefn gynllunio, nid oedd yn ofyniad statudol ar awdurdodau i roi ystyriaeth i'r Gymraeg. Ac er bod Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal asesiad amgylcheddol ffurfiol wrth lunio rhai cynlluniau a rhaglenni penodol, nid oedd gofyniad statudol cymharol ar gyfer cynnal asesiad o effaith ar y Gymraeg.

## Strategic objective 1: To influence the consideration given to the Welsh language in policy developments

Policy developments and legislation have a substantial effect on the Welsh language. The Commissioner's objective is to influence policy-makers so that appropriate consideration is given to the Welsh language early in the process of developing policies and legislation.

A variety of different methods are used to influence policy decisions. During 2014–15 these included using statutory powers to conduct an inquiry and to give advice, conduct or commission research work, respond to consultations, submit verbal and written evidence to committees and holding a continuous dialogue with policy-makers.

### Influencing policy and legislation in Wales

#### Strategic meetings

During the year regular meetings were held with Welsh Ministers in various policy areas to discuss matters directly and indirectly involving the Welsh language and its users. These include quarterly meetings with the First Minister in his role as Minister with responsibility for the Welsh language.

#### Verbal and written evidence to committees

Verbal evidence was submitted to five committees in the Assembly during the year. These included evidence to the Health and Social Care Committee on the report 'My Language, My Health: Inquiry into the Welsh Language in Primary Care', evidence to the Public Accounts Committee and the Communities, Equality and Local Government Committee on the contents of the 2013–14 Annual Report, evidence on language considerations in the Planning Bill to the Environment and Sustainability Committee and evidence regarding legislating and the Welsh language to the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

#### The Welsh language as a planning consideration

The planning system in Wales is currently based on laws made in Westminster, such as the Town and Country Planning Act 1990 and the Planning and Compulsory Purchase Act 2004. These laws are supplemented by regulations and secondary legislation passed in the Assembly and at Westminster. The Planning (Wales) Bill is an attempt by the Government to simplify this complex legislative system.

Although there are references to the Welsh language in the national planning policy, unlike other aspects of the planning system, authorities were not compelled by law to give consideration to the Welsh language. And although the Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004 require authorities to conduct a formal environmental assessment when preparing specific plans and programmes, there was no comparative statutory requirement to conduct an assessment of the effect on the Welsh language.

Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y Bil Cynllunio dywedodd y Comisiynydd fod y Bil yn gyfle unigryw i ddatrys y diffyg ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio gyfredol. Dywedodd y Comisiynydd fod y diffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil drafft yn golygu colli cyfle i roi'r un statws i'r Gymraeg ag a roddir i feysydd eraill fel amgylchedd a chynaliadwyedd. Cynigiwyd cyfres o welliannau i'r Bil:

- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu effaith y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar y Gymraeg;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol / paneli cynllunio strategol asesu effaith Cynlluniau Datblygu Strategol ar y Gymraeg;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol asesu effaith Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r asesiad effaith lleol o ddatblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd.

Fel rhan o'r gwelliannau hyn, eglurwyd hefyd y dylid sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynnal asesiad effaith ieithyddol ar ddatblygiadau unigol pan fo angen.

Fe ddefnyddiodd y Pwyllgor Amgylchedd fwyafrif cynigion y Comisiynydd wrth gynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad ar y Bil. Ar ddiwedd Mawrth 2015 cafwyd cadarnhad bod y Llywodraeth am wneud gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod gofynion statudol ar awdurdodau cynllunio i ystyried y Gymraeg.

### **Y Gymraeg mewn deddfwriaeth**

Gan fod deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar fywyd y dinesydd, cred y Comisiynydd fod angen datblygu ffordd gyson o ystyried y Gymraeg yn y broses o ddrafftio deddfwriaeth ac yn y broses o graffu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Wrth gyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol, dywedodd y Comisiynydd fod yna dystiolaeth gadarn nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddigonol yn y broses ddeddfu ar hyn o bryd. Cyfeiriodd yn benodol at y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant a'i siom nad oedd cyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil hyd y funud olaf ac at y diffyg ystyriaeth o'r Gymraeg yn y drafft cynnar o'r Bil Cynllunio.

Wrth drafod y broses ddrafftio, dywedodd fod angen meithrin y gallu technegol a phroffesiynol i ddrafftio deddfau'n ddwyieithog yng Nghymru, yn hytrach na drafftio yn Saesneg a chyfieithu i'r Gymraeg. Cyfeiriodd at y canllawiau yng Nghanaada o ran deddfu mewn dwy iaith. Dywedodd fod lle i weithio gyda phrifysgolion a chymdeithasau proffesiynol i ddatblygu trefn debyg yng Nghymru.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd nid oedd y Pwyllgor eto wedi cyhoeddi adroddiad yn crynhoi casgliadau ac argymhellion i'r Llywodraeth.

In submitting evidence to the Environment and Sustainability Committee on the Planning Bill, the Commissioner stated that the Bill was a unique opportunity to resolve the lack of consideration given to the Welsh language in the current planning system. The Commissioner said that the lack of reference to the Welsh language in the Bill meant that an opportunity had been lost to give the same status to Welsh as other areas such as the environment and sustainability. A series of amendments to the Bill were proposed:

- Require Welsh Ministers to assess the effect of the National Development Framework on the Welsh language;
- Require local planning authorities / strategic planning panels to assess the impact of Strategic Development Plans on the Welsh language;
- Require local planning authorities to assess the impact of Local Development Plans on the Welsh language;
- Require planning authorities to include an assessment of the impact on the Welsh language as part of the local impact assessment of nationally significant developments.

As part of these improvements, it was also argued a method should be ensured for local authorities to have the flexibility to hold a linguistic impact assessment on individual developments when necessary.

The Environment Committee used the majority of the Commissioner's proposals in proposing recommendations to the Welsh Government in its report on the Bill. At the end of March 2015, the Government confirmed that it was going to make amendments to the Bill in order to impose statutory requirements upon planning authorities to consider the Welsh language.

### **The Welsh language in legislation**

As legislation has a direct effect on citizens' lives, the Commissioner believes there is a need to develop a consistent way of considering the Welsh language in the process of drafting and scrutinising legislation in Wales.

Giving verbal evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Commissioner said there is strong evidence that the Welsh language is not presently being given adequate consideration in the legislative process. She referred specifically to the Social Services and Well-being Act and her disappointment that there was no reference to the Welsh language in the Bill until the last minute, and her disappointment as to the lack of consideration of the Welsh language in the early draft of the Planning Bill.

Discussing the drafting process, she said there was a need to develop technical and professional capacity to draft legislation bilingually in Wales, rather than drafting in English and then translating into Welsh. She referred to the guidelines in Canada in terms of drafting legislation in two languages. She stated that there was room to work with universities and professional societies to develop a similar arrangement in Wales.

At the end of the reporting period the Committee had not yet published a report summarising conclusions and recommendations to the Government.

### Ymateb i ymgynghoriadau

Yn ystod 2014–15 ymatebodd y Comisiynydd i 31 ymgynghoriad gan amrywiol sefydliadau er mwyn dylanwadu ar effeithiau'r polisiâu ar y Gymraeg a'i defnyddwyr. Mae'r ymatebion hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

### Addysg

Bu'r Llywodraeth yn edrych yn agos ar drefniadau addysg yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy gynnal dau adolygiad annibynnol i'r maes.

Comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm dysgu a threfniadau asesu yng Nghymru. Mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r adolygiad, pwysleisiodd y Comisiynydd yr angen am sgiliau iaith Gymraeg o fewn sefydliadau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru a'r heriau mae rhai sefydliadau a sectorau yn eu hwynebu wrth geisio recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau iaith addas ar gyfer y gwaith. Nododd y Comisiynydd hefyd yr angen i'r ddarpariaeth Gymraeg ail iaith fod yn gallu cyfrannu at greu cronfa o unigolion sydd â sgiliau iaith sylfaenol sydd o ddefnydd i gyflogwyr.

Roedd 10 argymhelliad yn ymwneud â'r Gymraeg wedi eu cynnwys yn adroddiad terfynol yr adolygiad.

Mae'r Athro Syr Ian Diamond wrthi'n cynnal adolygiad annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Yn ei thystiolaeth amlygodd y Comisiynydd rôl allweddol sefydliadau addysg uwch mewn creu gweithlu dwyieithog i Gymru gan gynnwys ar gyfer sectorau sy'n ei chael hi'n anodd recriwtio staff sydd â sgiliau iaith priodol ar hyn o bryd.

Disgwylir i'r Llywodraeth gyhoeddi beth fydd y camau a gaiff eu cymryd yn sgil y ddau adolygiad hwn.

### Ad-drefnu llywodraeth leol

Wrth geisio dylanwadu ar gynlluniau pellgyrhaeddol y Llywodraeth i ailstrwythuro llywodraeth leol, bu'r Comisiynydd yn pwysu i sicrhau bod y newidiadau yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Nododd y cyfle i ystyried gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn unol â gofynion newydd Mesur y Gymraeg a photensial y Comisiwn Staff arfaethedig i gynllunio ar gyfer hynny. Trwy gynnal cyfarfodydd â'r Llywodraeth ac ymateb i ymgynghoriadau ar wahanol agweddau ar y cynlluniau, pwysleiswyd hefyd yr angen i gynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol awdurdodau lleol wrth gwtogi'r nifer o awdurdodau yng Nghymru.

### Responding to consultations

During 2014–15, the Commissioner responded to 31 consultations from various organizations in order to influence the effects of policies on the Welsh language and its users. These responses have been published on the Commissioner's website.

### Education

The Government looked closely at education arrangements in Wales during the year, by conducting two independent reviews into the area.

Professor Graham Donaldson was commissioned to conduct an independent review of the learning curriculum and assessment arrangements in Wales. In written and verbal evidence to the review, the Commissioner emphasised the need for Welsh language skills in public organizations across Wales and the challenges faced by some organizations and sectors in trying to recruit individuals with the appropriate linguistic skills. The Commissioner also noted the need for Welsh second language education to be able to contribute to creating a pool of individuals with basic language skills that are of use to employers.

10 recommendations relating to the Welsh language were included in the final review report.

Professor Sir Ian Diamond is conducting an independent review on behalf of the Welsh Government of the funding arrangements for higher education and student finance. In her evidence, the Commissioner highlighted the key role of higher education institutions in creating a bilingual workforce for Wales, including for sectors that presently find it difficult to recruit staff with appropriate linguistic skills.

The Government is expected to announce what actions will be taken as a result of these two reviews.

### Reorganization of local government

In trying to influence the Government's far-reaching plans to restructure local government, the Commissioner pressed to ensure that the changes promote and facilitate use of the Welsh language. She noted the opportunity to consider the workforce's capacity to provide services in accordance with the new requirements of the Welsh Language Measure and the potential of the proposed Staff Commission to plan accordingly. In meetings with the Government and by responding to consultations on various aspects of the plans, the Commissioner emphasised the need to maintain and increase the use of Welsh in the internal administration of local authorities when reducing the number of authorities in Wales.

### Ymgynghoriadau eraill

Yn ogystal â'r uchod, ymatebwyd i ymgynghoriadau nodedig ar:

- Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol — yn galw am ddangosyddion cenedlaethol i fesur cyflawniad y nod o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'
- Fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar — yn amlygu'r angen i'r fframwaith hon gyfrannu at gyflawni amcanion Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, 'Iaith Fyw: Iaith Byw'
- Fframwaith safonau iechyd — yn nodi bod yr unig gyfeiriad at y Gymraeg yn y fframwaith yn amhriodol a bod angen ystyried yn fanwl sut gall y fframwaith gefnogi cyflawniad nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaeth gofal iechyd

### Ymholiad gofal sylfaenol

Ar 10 Mehefin 2014 cyhoeddwyd adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Roedd yr adroddiad yn ffrwyth 18 mis o waith ymchwil a chasglu tystiolaeth gan y cyhoedd, y sector iechyd ac eraill ynglŷn â darpariaeth gofal sylfaenol cyfrwng Gymraeg yng Nghymru a phrofiad cleifion wrth ddefnyddio gwasanaethau hynny.

Defnyddiodd y Comisiynydd ei phŵer statudol o dan adran 7 Mesur y Gymraeg i gynnal yr ymholiad hwn.

Penderfynwyd canolbwyntio ar y maes gofal sylfaenol oherwydd ei fod yn faes sy'n cyffwrdd â bywydau pobl o bob oedran ym mhob cwr o Gymru, a gan mai dyma fan cychwyn profiad y rhan fwyaf o bobl â'r gwasanaeth iechyd.

Wrth gasglu tystiolaeth i'r ymholiad, ystyriwyd profiadau dros 1,000 o siaradwyr Gymraeg. Wrth ddehongli'r dystiolaeth, daethpwyd i'r casgliad mai Saesneg yw prif iaith gwasanaethau gofal sylfaenol i fwyafrif siaradwyr Gymraeg yng Nghymru a bod yna anghysondeb sylweddol rhwng lefel y gwasanaeth Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

Lluniwyd 33 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a llunwyr polisi er mwyn gwella profiad y claf yng Nghymru. Roedd yr argymhellion hynny'n ymwneud â sicrhau parch ac urddas i'r claf, rhoi cynnig iaith yn rhagweithiol, cynllunio'r gweithlu a darparu addysg a hyfforddiant priodol i weithwyr y sector iechyd.

Ar 17 Tachwedd 2014 cynhaliwyd seminar i'r sector iechyd ar ganfyddiadau ac argymhellion yr ymholiad. Cafwyd ymateb unfrydol gadarnhaol i'r argymhellion.

Ar 10 Rhagfyr 2014 gwnaeth y Gweinidog Iechyd ddatganiad ffurfiol yn ymateb i argymhellion yr ymholiad. Croesawodd y Comisiynydd yr ymateb cychwynnol, a bu'n cwrdd â'r Gweinidog a'i swyddogion wedi hyn. Ymatebodd y Comisiynydd i gynllun gwaith y Llywodraeth a oedd yn nodi sut roedd yn bwriadu ymateb i bob un o argymhellion yr adroddiad er mwyn gwella profiad y claf.

### Other consultations

As well as the above, the Commissioner also responded to other notable consultations, including:

- Well-being of Future Generations Bill — calling for national indicators to measure the achievement of the aim of creating 'A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language'
- Early Years Outcomes Framework — highlighting this framework's contribution towards achieving the objectives of the Welsh Government's Strategy for the Welsh Language, 'A Living Language: A Language for Living'
- Health standards framework — noting that the only reference to the Welsh language in the framework was inappropriate and that detailed consideration was needed on how the framework could support the achievement of the aims of the Welsh Government for the Welsh language in healthcare services

### Primary care inquiry

On 10 June 2014 the 'My Language, My Health: Inquiry into the Welsh language in Primary Care' report was launched. The report was the result of 18 months of research and evidence-gathering from the public, the health sector and others regarding the provision of Welsh medium primary care in Wales and the experience of patients using those services.

The Commissioner used her statutory powers under section 7 of the Welsh Language Measure, to conduct this inquiry.

She decided to concentrate on primary care as it is an area that touches the lives of people of all ages in all parts of Wales, and because it is the starting point for most people's experience of the health service.

In gathering evidence for the inquiry, the experiences of over 1,000 Welsh speakers were considered. Interpreting the evidence, the Commissioner concluded that English is the main language of primary care services for most Welsh speakers in Wales and that there is substantial inconsistency between the level of Welsh language service in various geographical areas.

Thirty three recommendations were presented to the Welsh Government and policy makers in order to improve patients' experiences in Wales. The recommendations involved ensuring respect and dignity for the patient, giving a proactive language offer, planning the workforce and providing appropriate education and training for health sector workers.

On 17 November 2014 a seminar was held for the health sector on the findings and recommendations of the inquiry. The recommendations received an unanimously positive response.

On 10 December 2014 the Health Minister made a formal statement responding to the inquiry recommendations. The Commissioner welcomed the initial response, and subsequently met the Minister and his officers. The Commissioner responded to the Government's work plan which sets out how it intends responding to all the recommendations in the report in order to improve the patient experience.

## Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU yn datblygu polisi ar feysydd nad ydynt wedi eu datganoli. Yn hanesyddol, bu diffyg cysondeb yn y ffordd caiff y Gymraeg ei hystyried gan adrannau'r Llywodraeth. Mae'r Comisiynydd yn craffu ar bob datblygiad polisi er mwyn adnabod materion a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

Secondiwyd swyddog o swyddfa'r Comisiynydd i Swyddfa Cymru i gynnal archwiliad manwl o'r gwasanaethau Cymraeg ar draws adrannau'r Llywodraeth ac i adnabod bylchau a chryfderau o ran y ddarpariaeth Gymraeg.

Bu'r Comisiynydd yn cwrdd yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion yn Swyddfa Cymru i drafod cydymffurfiaeth ag ymrwymadau cynlluniau iaith ac unrhyw bryderon am wasanaethau Cymraeg anfoddhaol neu gwynion a ddaeth i law gan y cyhoedd.

### Diwygio cyfreithiau sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn ei thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk) yn 2013–14 tynnodd y Comisiynydd sylw at gyfreithiau sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac sy'n rhwystro'r cyhoedd yng Nghymru rhag defnyddio'r Gymraeg. Mae'r cyfreithiau hyn yn ymwneud â chofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau ac â threfniadau amlosgi.

Yn y papur polisi, 'Pwerau at Bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 27 Chwefror 2015, nododd y Llywodraeth y bydd yn ceisio sicrhau bod modd i ddinasyddion yng Nghymru allu cofrestru digwyddiadau pwysig bywyd yn y Gymraeg yn y dyfodol. Noda'r adroddiad hefyd fod yna gonsensws o blaid derbyn argymhelliad 39 adroddiad Comisiwn Silk:

“Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig ac adolygu sut y defnyddir y Gymraeg ym mhob rhan o'r llywodraeth, ac yn benodol yng nghyswllt diwygio unrhyw ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.”

### Tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig

Gŵyr y Comisiynydd, o ganlyniad i gwynion y mae'n eu derbyn ac ar sail canfyddiadau ymchwil, fod y ddarpariaeth Gymraeg mewn carchardai ym Mhrydain yn dameidiog tu hwnt ar hyn o bryd. Croesawodd y cyfle i gyflwyno dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig ar garchardai yng Nghymru a'r driniaeth o garcharorion Cymreig.

## Influencing UK Government Policy

The UK Government is responsible for developing policy in areas which have not been devolved. Historically, there has been a lack of consistency in the way in which the Welsh language is considered by Government departments. The Commissioner scrutinises all policy developments to identify issues which will have an impact on Welsh language users.

An officer from the Commissioner's office was seconded to the Wales Office to carry out a detailed investigation of Welsh language services across Government departments and to identify gaps and strengths in terms of Welsh language provision.

The Commissioner had regular meetings with the Secretary of State for Wales and the Wales Office Ministers to discuss compliance with language scheme commitments and any concerns regarding unsatisfactory Welsh language services or complaints received from the public.

### Reforming legislation that treats the Welsh language less favourably than the English language

In her verbal and written evidence to the Commission on Devolution in Wales (the Silk Commission) in 2013–14, the Commissioner drew attention to legislation that treats the Welsh language less favourably than the English language and that prevents the public in Wales from using Welsh. These laws deal with the registration of births, marriages and deaths and with cremation arrangements.

In the policy paper, 'Powers for a Purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales', published by the UK Government on 27 February 2015, the Government noted that it will try to ensure that citizens in Wales can register life's important events in Welsh in the future. The report also notes that there is consensus in favour of accepting recommendation 39 in the Silk Commission report:

“The UK Government and Welsh Government should systematically assess and keep under review the way in which the Welsh language is used across government, in particular with a view to amending any United Kingdom legislation that does not give equal status to the Welsh language in Wales.”

### Evidence to the Welsh Affairs Select Committee

The Commissioner is aware, as a consequence of complaints received and research findings, that the Welsh language provision in UK prisons is very patchy at present. She welcomed the opportunity to give verbal and written evidence to the Welsh Affairs Select Committee's investigation inquiry into prisons in Wales and the treatment of Welsh offenders.

Yn ei thystiolaeth, dywedodd bod angen darpariaeth cwbl ddwyieithog mewn carchardai yng Nghymru sy'n ateb anghenion unigolion, boed y rheiny'n garcharorion neu'n berthnasau i garcharorion. Nododd hefyd fod y carchar newydd yn Wrecsam yn gyfle i sefydlu ethos Cymreig yn y carchar o'r cychwyn.

Cyhoeddodd y pwyllgor ei adroddiad ar sefyllfa carchardai yng Nghymru ar 20 Mawrth 2015. Mae'r adroddiad yn argymhell casglu gwybodaeth ynghylch niferoedd y siaradwyr Cymraeg mewn carchardai a'r safon o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd, gwybodaeth sy'n hanfodol fel sail i gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth Gymraeg at y dyfodol. Mae'r argymhelliad yn cynnig rôl i'r Comisiynydd wrth gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

### Ymchwil

Mae dylanwadu ar bolisi yn ddibynnol i raddau helaeth ar gael tystiolaeth a data i gefnogi a chryfhau dadleuon. Mae'r Comisiynydd yn gweithio i gynyddu dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy wneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud.

### Dadansoddiad o'r Cyfrifiad

Er mwyn deall yn well ganlyniadau'r Cyfrifiad yng nghyswllt y Gymraeg a gallu rhannu'r wybodaeth honno'n gyhoeddus, comisiynwyd Uned Ddata Cymru i gyflwyno'r canlyniadau ar ffurf mapiau, siartiau a delweddau eraill. Dengys y delweddau hyn y newidiadau yn y niferoedd a'r canrannau o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ers 1971, gan ddadansoddi'r canlyniadau fesul oedran, ardaloedd daearyddol, sectorau cyflogaeth a mathau o sgiliau iaith. Bydd yr wybodaeth gyd-destunol hon o ddefnydd wrth gynllunio gwahanol agweddau ar waith y Comisiynydd at y dyfodol a bwriedir cyhoeddi'r delweddau ar wefan y Comisiynydd fel y gellir eu defnyddio gan eraill.

### Arolwg Defnydd Iaith

Comisiynwyd Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 ar y cyd rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o'r defnydd y mae siaradwyr Cymraeg yn ei wneud o'r iaith. Holwyd cwestiynau eang i oedolion a phlant sy'n siarad Cymraeg i weld pa mor dda y gallant siarad yr iaith, pa mor aml, ble a phryd maent yn ei defnyddio ac â phwy.

Dengys canfyddiadau blwyddyn gyntaf yr arolwg fod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd i gael gafael ar wasanaethau ac yn y gweithle. Hefyd, mae mwy o bobl yn siarad ychydig o Gymraeg neu ychydig o eiriau yn unig. Er hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghymru ychydig yn is yn gyffredinol o'i gymharu â'r arolwg blaenorol yn 2006.

Cyhoeddwyd canlyniadau blwyddyn gyntaf yr arolwg ar 29 Ionawr 2015 a bwriedir cyhoeddi adroddiad cyflawn ar yr arolwg tua diwedd y flwyddyn hon. Mae'r arolwg yn edrych ar y defnydd a wneir o'r iaith, ond dylid nodi mai canlyniadau Cyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth o hyd am y tueddiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Her evidence stated that a fully bilingual prison provision is needed in Wales, which responds to the needs of individuals, whether they were offenders or relatives of prisoners. She also noted that the new prison in Wrexham is an opportunity to establish a Welsh ethos in the prison from the outset.

The committee published its report on the situation of prisons in Wales on 20 March 2015. The report recommends collecting evidence regarding the numbers of Welsh speakers in prisons and the standard of Welsh language services available to them at present; information which is vital as a basis for planning improvements to the Welsh language provision for the future. The recommendation offers the Commissioner a role in collecting the evidence needed.

### Research

Influencing policy depends largely on collating evidence and data to support and strengthen debates. The Commissioner works to increase understanding of the position of the Welsh language by carrying out research or commissioning others to do so.

### Analysis of the Census

To better understand the Census results in terms of the Welsh language and to be able to share that information publicly, the Wales Data Unit was commissioned to illustrate the results in the form of maps, charts and other visuals. These graphics show the changes in the numbers and percentages of Welsh speakers in Wales since 1971, analysing the results by age, geographical areas, employment sectors and types of language skills. This contextual information will be useful in planning various aspects of the Commissioner's work for the future and the graphics will be published on the Commissioner's website so that they can be used by others.

### Language Use Survey

A Language Use Survey 2013–15 was commissioned jointly between the Commissioner and the Welsh Government in order to provide a comprehensive picture of Welsh speakers' use of the language. Wide ranging questions were asked of adults and children who could speak Welsh to find out how well they can speak the language, how often, and where, when and with whom they use it.

The survey's first year findings show that the majority of those who are fluent are using the language every day and are using Welsh regularly to access services and in the workplace. Additionally, there are also a greater number of people who speak a little or a few words of Welsh. Even so, the number of fluent speakers in Wales is slightly lower in general than in the previous survey in 2006.

The survey's first-year results were published on 29 January 2015 and is intended that the full survey report is due to be published towards the end of this year. The survey looks at the use made of the language, but it should be noted that the results of the 2011 Census are still the authoritative source of information regarding the trends in the number of Welsh speakers.



### Arolwg defnydd gwasanaethau awdurdodau lleol

Comisiynwyd cwmni ymchwil i gasglu tystiolaeth am brofiadau sampl o 1,000 o bobl wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg awdurdodau lleol. Holwyd y bobl hynny beth yw eu dymuniadau a'u dyheadau o ran gwasanaethau Cymraeg a sut maent yn teimlo bod eu profiadau go iawn yn cymharu â'r dyheadau hynny. Bydd yr wybodaeth yn cyfoethogi'r sail dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymarferiad siopwr cudd y cyfeirir ato ar dudalen 58 ac yn amlygu lle mae angen gwella'r gwasanaethau dan sylw. Bwriedir i'r wybodaeth fod yn ddefnyddiol wrth roi cynlluniau ar waith i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Cyhoeddir adroddiad ar y canfyddiadau yn hwyrach eleni.

### Gwaith ymchwil marchnad dai

Cydweithiwyd ag awdurdodau cynllunio Gwynedd, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri ar astudiaeth o sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr tai. Nod yr arolwg oedd cryfhau dealltwriaeth y cyrff perthnasol o'r berthynas rhwng y farchnad dai, sgiliau iaith Gymraeg a defnydd o'r iaith yng ngogledd orllewin Cymru.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolwg ar 16 Rhagfyr 2014. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad, dywedodd y Comisiynydd ei bod yn disgwyl i'r cynghorau ystyried canfyddiadau'r ymchwil yn llawn wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol ac wrth asesu effaith y Cynllun ar y Gymraeg.

### Ymchwil ar y sector bwyd a diod

Cynhaliwyd ymchwil gyda busnesau cynhyrchu bwyd a diod er mwyn casglu tystiolaeth anecdotaidd a fyddai'n rhoi blas ar y defnydd o'r Gymraeg a'r rhesymau dros ddefnyddio'r iaith.

Cynhaliwyd 11 cyfweiliad ansoddol wyneb yn wyneb â chyfarwyddwyr a rheolwyr cwmnïau. Roedd y cyfweiliadau'n rhai lled strwythuredig, gyda'r ymchwilwyr yn dilyn canllaw trafod.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau cyntaf rhwng Ebrill a Mai 2014. Roedd y pum cyfweiliad cyntaf yn sail i'r canlyniadau interim a gyhoeddwyd yn ystod Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2014. Cynhaliwyd yr ail gam rhwng Medi a Hydref 2014, gan sicrhau sampl o fusnesau o wahanol ardaloedd yng Nghymru a oedd yn adlewyrchu trawstoriad o'r sector bwyd a diod. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad yn ystod Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Rhagfyr 2014.

Adroddir mwy am yr ymchwil o dan Amcan Strategol 4 ar dudalen 64.

### Survey of the use of local authority services

A research company was commissioned to collect evidence regarding the experiences of a sample of 1,000 people in using local authorities' Welsh language services. People were asked what their hopes and aspirations were in terms of Welsh language services and how they feel their real experiences compare with those aspirations. The information will enrich the evidence base collected via the mystery shopper exercise referred to on page 59 and highlight where the services in question need to be improved. The information is intended to be useful in implementing plans to reform local government in Wales. A report on the findings will be published later this year.

### Housing market research

The Commissioner worked with Gwynedd, Anglesey and Snowdonia National Park planning authorities on a study of the Welsh language skills of the residents of households. The aim of the survey was to strengthen the relevant bodies' understanding of the relationship between the housing market, Welsh language skills and the use of the language in north west Wales.

The survey results were published on 16 December 2014. When the report was published, the Commissioner said that she expected the councils to fully consider the findings of the research when drafting their Local Development Plan and when assessing the effect of the Local Development Plan on the Welsh language.

### Research on the food and drink sector

Research was carried out with food and drink production businesses to collect anecdotal evidence that would give a taste of the use of Welsh and the reasons for using the language.

A total of 11 qualitative face-to-face interviews were conducted with directors and managers of companies. The interviews were semi-structured with the researchers following a discussion guide.

The first interviews were held between April and May 2014. The first five interviews were the basis for the interim results published by the Welsh Language Commissioner at the Royal Welsh Show at Builth Wells in July 2014. The second phase was conducted between September and October 2014, ensuring a sample of businesses from various areas of Wales reflecting a cross-section of the food and drink sector. The research report was published during the Royal Welsh Agricultural Society's Winter Fair in December 2014.

A more detailed report on the research can be found under Strategic Objective 4 on page 65.

### Ymchwil marchnata dwyieithog i elusennau

Comisiynwyd ymchwil meintiol er mwyn canfod gwerth defnyddio'r Gymraeg wrth farchnata. Cyfoethogwyd y data drwy gynnig cyfle i ymatebwyr gyflwyno sylwadau pellach yn dilyn rhai cwestiynau penodol.

Rhwng 27 Chwefror a 2 Ebrill 2014 cynhaliwyd 752 cyfweiliad gydag ymatebwyr ledled Cymru oedd yn perthyn i amryw o grwpiau oedran. Er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru, roedd ymatebion siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 19% o'r canlyniadau sef y ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Rhodddwyd cyfres o gyflwyniadau ar y gwaith ymchwil i elusennau ledled Cymru trwy fforymau Sefydliad Codi Arian Cymru.

Adroddir am ganfyddiadau a negeseuon yr ymchwil o dan Amcan Strategol 4 ar dudalen 64.

### Research on bilingual marketing for charities

Quantitative research was commissioned to assess the value of using the Welsh language in marketing. The data was enriched through offering respondents the opportunity to add further comments following specific questions.

Between 27 February and 2 April 2014 752 interviews were conducted with respondents from across Wales who belonged to a variety of age groups. So that the results were representative of the population of Wales, the responses of Welsh speakers represent 19% of the results which is the percentage of the population that speaks Welsh.

A series of presentations on the research findings were given to charities across Wales through the Wales Institute of Fundraising forums.

A report on the findings and messages of the research can be found under Strategic Objective 4 on page 65.

## Amcan strategol 2: Gwrando ar farn a phryderon am y Gymraeg a cheisio sicrhau cyfiawnder i unigolion

Nid yw pobl bob amser yn gallu defnyddio'r Gymraeg a derbyn gwasanaethau yn ôl eu dymuniad. Mae gan y Comisiynydd bwerau statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ymchwilio i amheuron o fethiannau gan sefydliadau cyhoeddus i weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg ac i ystyried achosion o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Mae pwerau pellach ym Mesur y Gymraeg i ddwyn achosion cyfreithiol, rhoi cymorth neu ymyrryd mewn achosion.

### Adolygu'r drefn cwynion

Yn ystod 2013–14 cynhaliwyd adolygiad o gyfundrefn gwyno'r Comisiynydd, ac yn ystod 2014–15 rhoddwyd argymhellion yr adolygiad ar waith.

Mae lle canolog i ddelio â chwynion yng nghynllun strategol y Comisiynydd ac mae tîm ymchwilio a gorfodi wedi ei greu ag iddo'r swyddogaeth o ddatrys cwynion ac ymchwilio i amheuron o fethiant. Cafodd prosesau mewnol a dulliau ymgysylltu ag achwynwyr eu symleiddio a'u cryfhau. Gwnaed gwaith yn y maes hwn er mwyn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a chyflogwyr ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg, sut i gwyno a beth all y Comisiynydd ei wneud â chwynion, ac aethpwyd ati i lunio rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr.

Fel rhan o'r rhaglen gyfathrebu, lluniwyd cyfres o gyhoeddiadau print ac electronig newydd yn cyflwyno'r drefn, wedi eu hanelu at y cyhoedd yn ogystal ag at gyflogwyr. Addaswyd gwefan y Comisiynydd er mwyn gwneud yr adran gwyno'n amlycach. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus, yn Aberystwyth, Caerdydd, Caernarfon a'r Wyddgrug, yn ystod mis Mawrth 2015 i roi cyflwyniad i waith y tîm ymchwilio a gorfodi ac i wrando ar farn a phrofiadau defnyddwyr o ddefnyddio'r Gymraeg ac o gwyno am ddiffyg darpariaeth Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, cynhyrchwyd cyfres o fideos a hysbysebion ar gyfer eu darlledu ar y we ac ar y teledu yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd am sefyllfaoedd y gellir cwyno amdanynt os na cheir gwasanaeth Cymraeg derbyniol neu lle mae ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Strategic objective 2: To listen to opinions and concerns about the Welsh language and to try to ensure justice for individuals

People are not always able to use Welsh and receive services according to their wishes. The Commissioner has statutory powers under the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011 to investigate suspected failures by public organizations to implement their Welsh language schemes and to consider cases of interference with individuals' freedom to use Welsh with others in Wales. There are further powers in the Welsh Language Measure to institute legal proceedings, to assist or to intervene in cases.

### Reviewing the complaints procedure

During 2013–14 a review was held of the Commissioner's complaints procedure, and during 2014–15 the recommendations of the review were implemented.

There is a central role for dealing with complaints in the Commissioner's strategic plan and an investigation and enforcement team has been created with the function of resolving complaints and investigating suspected failures. Internal processes and methods of contacting complainants were simplified and strengthened. Work was carried out to increase the understanding of both the public and employers regarding use of the Welsh language, how to complain and what the Commissioner can do with complaints, and a comprehensive communications programme was prepared.

As part of the communications programme, a series of new print and electronic publications were produced to give an introduction to the procedure — aimed at the public as well as employers. The Commissioner's website was updated to make the complaints section more prominent. Public meetings were held in Aberystwyth, Cardiff, Caernarfon and Mold during March 2015 to give a presentation on the work of the investigations and enforcement team and to listen to the public's opinions and experiences of using the Welsh language and of complaining about the lack of a Welsh language provision.

As well as this, a series of videos and adverts were produced for broadcast on the web and on television to provide information to the public about situations which they can complain about if no acceptable Welsh language service is received or where there is interference with the freedom to use Welsh.

### Dadansoddiad o'r holl gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2014–15

Ystyriwyd 241 o achosion lle roedd unigolion yn teimlo bod ganddynt le i gwyno wrth y Comisiynydd am anawsterau neu broblemau'n deillio o geisio derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus.

Datryswyd nifer helaeth o'r cwynion hyn trwy ddulliau anffurfiol, trwy drafod a chytuno ar gamau gwella gyda'r sefydliad dan sylw neu drwy gynghori'r achwynwyr i adrodd eu pryderon wrth y sefydliad er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddo ystyried ac ymateb i'w cwyn. Un enghraifft o ddatrysiad o'r math hwn yw awdurdod lleol yn cyfnewid arwyddion newydd, a oedd yn uniaith Saesneg yn wreiddiol, am rai dwyieithog ym mhob safle ailgylchu yn y sir yn dilyn trafodaeth â swyddfa'r Comisiynydd.

Enghraifft arall yw derbyn cwyn am ddiffyg defnydd honedig o'r Gymraeg mewn cartref preswyl ar gyfer yr henoed. Ar ôl i'r Comisiynydd wneud ymholiadau, penderfynodd yr awdurdod lleol, sef perchennog y cartref, drefnu rhaglen hyfforddiant Cymraeg i ofalwyr yr henoed ar gyfer rheolwr a staff y cartref. Dywedodd yr achwynydd iddi deimlo newid cadarnhaol yn agwedd y staff tuag at y Gymraeg yn ei chŵyn i'r Comisiynydd.

Cafwyd datrysiad boddhaol hefyd yn dilyn methiant gan fwrdd iechyd i gynnig asesiad iechyd meddwl dros y ffôn yn Gymraeg. Wedi trafod â swyddfa'r Comisiynydd, fe adolygodd y bwrdd iechyd ei drefniadau er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o adrannau eraill ar gael i gynnal asesiadau o'r fath pan fo staff parhaol yn absennol.

#### Dadansoddiad o'r cwynion

Mae adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn diffinio cwyn statudol fel un sydd:

- o wedi ei chyflwyno yn ysgrifenedig gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni ei gynllun iaith wedi effeithio'n uniongyrchol arno;
- o wedi ei gwneud i'r Comisiynydd o fewn deuddeg mis o ddyddiad y methiant;
- o wedi ei chyfeirio at sylw'r corff cyhoeddus y cwynid amdano er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddo ystyried ac ymateb.

Ceir tabl yn nodi pob cwyn a ddaeth i law yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

### Analysis of all the complaints received during 2014–15

The Commissioner considered 241 cases in 2014–15 from individuals who felt that they had reason to complain to the Commissioner about difficulties or problems arising from trying to access Welsh medium services from public organizations.

A significant number of the complaints were resolved informally, by discussing and agreeing on actions with the organization in question or by advising the complainants to report their concerns directly to the organization in order to give them a reasonable opportunity to consider and respond to their complaint. One example of such a resolution is a local authority replacing new signs which were originally in English only for bilingual ones in all recycling sites in the county following discussions with the Commissioner's office.

A further example is that of a complaint about an alleged lack of Welsh language provision in a residential home for the elderly. Following the Commissioner's enquiries, the local authority, the owner of the home, decided to organize a Welsh for carers of the elderly training programme for the home manager and staff. The complainant said that after voicing her complaint to the Commissioner that she felt there was a positive change in the staff's attitude towards the Welsh language.

A satisfactory resolution was also reached following the failure of a health board to offer a mental health assessment over the telephone in Welsh. Following discussions with the Commissioner's office, the health board revised its arrangements in order to ensure that Welsh speakers from other departments were available to conduct such assessments when permanent staff were absent.

#### Analysis of the complaints

Section 18 of the Welsh Language Act 1993 defines a statutory complaint as follows:

- o a complaint made in writing by a person who claims to have been directly affected by a failure of a public body to fulfil its language scheme;
- o a complaint made within twelve months of the date of the failure;
- o a complaint which has been referred to the attention of the public body concerned in order to give them a reasonable opportunity to consider and respond to the complaint.

A table noting every complaint received can be found in the Appendix to this Annual Report.

Fel gwelir o'r tabl canlynol, nid oedd rhai o'r achosion yn cydymffurfio â'r diffiniad statudol o gŵyn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

	Nifer
Cwynion dilys yn erbyn cyrff cyhoeddus am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ac yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	28
Cwynion dilys yn erbyn cyrff cyhoeddus am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ond heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	111
Cwynion dilys yn erbyn cyrff y Goron am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ac yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	14
Cwynion dilys yn erbyn cyrff y Goron am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ond heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg	88
<b>Cwynion a dderbyniwyd yn ôl sector</b>	<b>Nifer</b>
Cyhoeddus	136
Cyrff y Goron	102
Preifat dan ddyletswydd statudol	3
<b>Cwynion a dderbyniwyd yn ôl categori</b>	<b>Nifer</b>
Gohebiaeth	54
Cyhoeddiadau	18
Gwefannau	27
Arwyddion	18
Gwasanaethau ffôn	26
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	16
Ffurflenni	25
Arall	57

As can be seen from the following table, some of the complaints did not comply with the statutory definition of a complaint under the Welsh Language Act 1993.

	Number
Valid complaints against public bodies for cases of breaching statutory Welsh language schemes, meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	28
Valid complaints against public bodies for cases of breaching statutory Welsh language schemes, but <u>not</u> meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	111
Valid complaints against Crown bodies for cases of breaching statutory Welsh language schemes, meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	14
Valid complaints against Crown bodies for cases of breaching statutory Welsh language schemes, but <u>not</u> meeting the criteria of section 18 of the Welsh Language Act	88
<b>Complaints received per sector</b>	<b>Number</b>
Public	136
Crown Bodies	102
Private under statutory duty	3
<b>Complaints received according to category</b>	<b>Number</b>
Correspondence	54
Publications	18
Websites	27
Signage	18
Telephone services	26
Face to face meetings	16
Forms	25
Other	57

### Ymchwiliadau statudol dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae gan y Comisiynydd bŵer cyfreithiol i gynnal ymchwiliad statudol i fethiannau honedig gan sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â gofynion eu cynlluniau iaith Gymraeg. Cwblhawyd dau ymchwiliad statudol yn ystod y flwyddyn, ar ôl derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd.

#### Ymchwiliadau statudol

Dechreuodd y Comisiynydd bump o ymchwiliadau statudol o dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ystod 2014–15. Cynhaliwyd ymchwiliadau mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Ddinbych a gwnaed argymhellion statudol terfynol o dan adran 19 y Ddeddf, fel crynhoir isod. Agorwyd ymchwiliadau mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ogystal.

#### Ymchwiliad statudol i weithrediad cynllun iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ar 1 Hydref 2014 cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad statudol i weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn dilyn cwyn gan riant bod nyrs ysgol ddi-Gymraeg wedi cynnal asesiad o blentyn pum mlwydd oed uniaith Gymraeg mewn ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg yng Ngheredigion.

Daeth adroddiad yr ymchwiliad i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chydymffurfio ag wyth cymal yn ei Gynllun Iaith trwy beidio â chynllunio a threfnu gwasanaeth Gymraeg. Mae'r cymalau hynny'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau, staffio a recriwtio a monitro prosesau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith.

Gwnaeth y Comisiynydd dri argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd er mwyn adfer y sefyllfa a'i alluogi i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith yn y dyfodol:

- Rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod nyrs ysgol Gymraeg ar gael i siaradwyr Gymraeg, a llunio gweithdrefn er mwyn sicrhau gwasanaeth Gymraeg pan fo sefyllfa o brinder yn bodoli.
- Cynllunio ar gyfer hyfforddi, denu a recriwtio staff cymwys dwyieithog yn y gwasanaeth nyrsio i ysgolion.
- Cynnal adolygiad o statws, rôl a chylch gorchwyl Grŵp Llywio a Monitro'r Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau y creffir yn ddigonol ar weithrediad adran staffio a recriwtio'r cynllun iaith Gymraeg.

Gosodwyd amserlen benodol ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn.

### Statutory investigations under section 17 of the Welsh Language Act 1993

The Commissioner has legal powers to conduct statutory investigations into alleged failures by public organizations to comply with the requirements of their Welsh language schemes. The Commissioner conducted two statutory investigations during the year, after receiving complaints from members of the public

#### Statutory investigations

The Commissioner instigated five investigations under section 17 of the Welsh Language Act 1993 during 2014–15. The Commissioner conducted statutory investigations with regard to Hywel Dda University Health Board and Denbighshire County Council and final statutory recommendations were made and published under Section 19 of the Act and are summarized below. Investigations were commenced in relation to Cardiff and Vale University Health Board, the Welsh Government and Brecon Beacons National Park Authority.

#### Statutory investigation into the implementation of the language scheme of the Hywel Dda University Health Board

The statutory investigation report into the implementation of Hywel Dda University Health Board's Welsh Language Scheme was published on 1 October 2014. The investigation was conducted following a complaint from a parent that a non-Welsh-speaking school nurse had undertaken an assessment of a 5-year-old child who could only speak Welsh in a Ceredigion Welsh-medium primary school.

The investigation concluded that the Health Board failed to comply with eight clauses in its Language Scheme by not planning and arranging a Welsh language service. The clauses relate to service delivery, staffing and recruitment and monitoring processes to ensure compliance with the Language Scheme.

The Commissioner made three recommendations to the Health Board in order to resolve the situation and to enable it to comply with the Welsh Language scheme in the future:

- Establish arrangements to ensure that a Welsh-speaking school nurse is available to provide services for Welsh speakers, and establish a procedure to ensure a Welsh language service when a situation of scarcity exists.
- Prepare a workforce development plan for training, attracting and recruiting qualified bilingual staff in the school nursing service.
- Undertake a review of the status, role and terms of reference of the Health Board's Welsh Language Steering and Monitoring Group to ensure sufficient scrutiny of the staffing and recruitment section of the Welsh Language Scheme.

A specific timetable was applied for the implementation of each recommendation.

### Ymchwiliad statudol i weithrediad Cynllun Iaith Cyngor Sir Ddinbych

Ar 9 Chwefror 2015 cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad statudol i weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ddinbych. Cynhaliwyd yr ymchwiliad wedi i achwynydd gwyno bod y Cyngor wedi anfon holiadur 'Arolwg Canol y Dref' uniaith Saesneg ato. Cysylltodd yr achwynydd â'r Cyngor i leisio anfodlonrwydd ag iaith yr holiadur, a dywedwyd wrtho fod y Cyngor wedi cyhoeddi holiaduron yn uniaith Saesneg er mwyn arbed arian.

Daeth adroddiad yr ymchwiliad i'r casgliad bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â phedwar cymal yn ei Gynllun Iaith. Mae'r cymalau hynny'n ymwneud â methiant i gychwyn gohebiaeth gydag unigolyn yn ddwyieithog, methiant i anfon dogfennau amgaeedig at unigolion yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, methiant i anfon holiaduron i'r cyhoedd yn ddwyieithog a methiant i ymgynghori â'r Comisiynydd.

Gwnaeth y Comisiynydd chwech o argymhellion i'r Cyngor er mwyn adfer y sefyllfa a'i alluogi i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith yn y dyfodol:

- Gosod trefn mewn lle ar gyfer ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch unrhyw gynlluniau arfaethedig a fydd yn effeithio ar ei gynllun iaith Gymraeg.
- Hysbysu pob un o'i adrannau o'r ddyletswydd, wrth gychwyn gohebu, i anfon yr ohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd, os yw'n hysbys, neu'n ddwyieithog.
- Datblygu gweithdrefn ar gyfer nodi cyfrwng iaith cwynion a leisir ar lafar, wrth anfon manylion cwynion at yr adrannau perthnasol i ymateb yn ysgrifenedig.
- Hysbysu pob un o'i adrannau o'r ddyletswydd i anfon unrhyw ddogfennau a amgeir gyda llythyrau Cymraeg neu ddwyieithog yn Gymraeg neu'n ddwyieithog lle bo'n bosibl.
- Adrodd i'r Comisiynydd ar unrhyw arolygon sydd yn yr arfaeth a sut y sicrhawyd bod pob agwedd o'r cyfathrebu mewn perthynas â'r arolygon hynny'n ddwyieithog.
- Ymddiheuro am ei fethiant i anfon holiadur Cymraeg at drigolion y sir yn rhan o'r Arolwg Canol y Dref trwy gyfrwng ei gylchlythyr chwarterol.

Gosodwyd amserlen benodol ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn.

### Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Gall unigolion sy'n teimlo bod person wedi ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i'w hachos. Mae adran 111 (1) y Mesur yn datgan:

Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ("yr ymyrraeth honedig").

### Statutory investigation into the implementation of Denbighshire County Council's Language Scheme

On 9 February 2015 the statutory investigation report into the implementation of Denbighshire County Council's Welsh Language Scheme was published. The investigation was conducted after a member of the public complained that the Council had sent him an English-only 'Town Centre Survey' questionnaire. The complainant contacted the Council to express dissatisfaction with the language of the questionnaire, and was told that the Council had published questionnaires in English-only in order to save money.

The investigation report concluded that the Council had failed to comply with four clauses in its Language Scheme. They involved failure to initiate correspondence with an individual bilingually, failure to send enclosed documents to individuals in Welsh or bilingually, failure to send questionnaires to the public bilingually and failure to consult with the Commissioner.

The Commissioner made six recommendations to the Council in order to resolve the situation and enable it to comply with its Language Scheme in the future:

- The Council should have in place a procedure to consult with the Welsh Language Commissioner regarding any initiatives which will affect its Welsh language scheme.
- The Council should inform each of its departments of their responsibilities, when initiating correspondence, to send the correspondence in the recipient's chosen language, if known, or bilingually.
- The Council's Customer Services Team should develop a procedure for recording the language of verbal complaints when sending details of those complaints to the relevant departments for a written response.
- The Council should inform each of its departments of the duty to send any documents enclosed with Welsh or bilingual letters in Welsh or bilingually wherever possible.
- The Council should report any planned surveys to the Commissioner and outline how it will ensure that all aspects of the correspondence in relation to those surveys are bilingual.
- The Council should apologise for its failure to send a Welsh questionnaire to the county's residents as part of the Town Centre Survey, in its quarterly newsletter.

A specific timescale was applied for implementing these recommendations.

### Freedom to use the Welsh language

Individuals who feel that a person has interfered with their freedom to use the Welsh language can ask the Commissioner to investigate their case. Section 111 (1) of the Measure states:

An individual (P) may apply to the Commissioner for the Commissioner to investigate whether a person (D) has interfered with P's freedom to undertake a Welsh communication with another individual (R) (the "alleged interference").

Yn ystod 2014–15 derbyniwyd pedwar cais o'r newydd. Cynhaliwyd ymchwiliad statudol i un cais dan adran 115 Mesur y Gymraeg a rhoddwyd cyngor. Roedd dau o'r ceisiadau yn annilys; a chaewyd un achos ar sail diffyg tystiolaeth gan na ymatebwyd i geisiadau'r Comisiynydd am wybodaeth.

Mewn cysylltiad â'r 11 o geisiadau perthnasol a dderbyniwyd ers sefydlu'r Comisiynydd yn 2012 nodir nad yw naw cais yn cyd-fynd â gofynion diffiniedig adran 111 Mesur y Gymraeg.

Mae'r gofynion cyfreithiol fel a ganlyn:

- Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig oni bai bod amgylchiadau personol yr ymgeisydd yn golygu na fyddai'n rhesymol iddo wneud cais ysgrifenedig;
- Rhaid i'r cais roi cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â'r ymgeisydd (boed y cyfeiriad yn gyfeiriad post, electronig neu'n gyfeiriad o ddisgrifiad arall);
- Rhaid i'r cais adnabod pwy sy'n gyfrifol am yr ymyrraeth honedig a'i gwneud yn hysbys beth yw'r ymyrraeth honedig.

Ni chaiff y Comisiynydd ystyried ceisiadau gan unigolion na'u heffeithiwyd yn uniongyrchol gan yr ymyrraeth honedig. Er hynny, os yw achos yn ymwneud â rhyddid plentyn neu rywun bregus i ddefnyddio'r Gymraeg gall y Comisiynydd ymchwilio i gais gan riant neu eiriolwr ar ei ran.

Ers ei sefydlu, mae'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad a dyfarnu ar ddau achos. Cyhoeddwyd y ddau adroddiad yn ystod 2014–15.

#### **Crynodeb o ddyfarniad ac adroddiad ymchwiliad Swinton**

Ar 23 Mai 2014 cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad statudol i honiad o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg gan gwmni yswiriant Swinton.

Ymchwiliwyd i'r achos wedi i unigolyn a oedd yn gweithio i'r cwmni wneud cwyn i'r Comisiynydd ynghylch polisi ei gyflogwr o wahardd staff yng Nghymru rhag defnyddio'r Gymraeg wrth drafod manylion cynnyrch ariannol â chwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. Cynhaliwyd ymchwiliad i'r achos, ac wrth ddod i ddyfarniad, rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr achwynydd, y cwmni a gan gorff rheoleiddio'r diwydiant ariannol, y Financial Conduct Authority (FCA).

Yn y dyfarniad, nodar Comisiynydd ei bod o'r farn bod "[Swinton] wedi ymyrryd â rhyddid [unigolyn] i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, ac nad oes cyfiawnhad dros yr ymyrraeth honno."

Aeth ymlaen i ddweud mai "[c]anlyniad yr ymyrraeth yw creu sefyllfa artiffisial lle mae'n ofynnol ar staff [Swinton] i siarad Saesneg gydag unigolion y gwyddai'r staff eu bod yn siarad Cymraeg ac eu bod yn dymuno gwneud hynny."

Four new applications were received during 2014–15. A statutory investigation under section 115 of the Welsh Language Measure was held in relation to one application and advice was given. Two of the applications were not valid; and one case was closed on the basis of lack of evidence as no response was given to the Commissioner's request for information.

In connection with the 11 applications received since the Commissioner was established in 2012, nine applications have not complied with the defined requirements of the Welsh Language Measure as specified under section 111.

The legal requirements are as follows:

- The application must be made in writing, unless the applicant's personal circumstances are such that it would not be reasonable for him/her to make the application in writing;
- The application must give an address at which the Commissioner may contact the applicant (whether the address is postal, electronic or of another description);
- The application must identify who is responsible for the alleged interference and identify the alleged interference.

The Commissioner may not consider applications by individuals who have not been directly affected by the alleged interference. However, if the case involves the freedom of a child or a vulnerable person to use Welsh, the Commissioner may investigate following an application by a parent or advocate on their behalf.

Since it was established, the Commissioner has conducted an investigation and determined on two cases. Both reports were published during 2014–15.

#### **Summary of the ruling and report on the Swinton investigation**

A statutory investigation report into an allegation of interference with an individual's freedom to use the Welsh language by Swinton insurance company was published on 23 May 2014.

This case was investigated after an individual who worked for Swinton complained to the Commissioner about the employer's policy of prohibiting staff from using the Welsh language when discussing the details of financial products with Welsh speaking customers in Wales. The case was investigated, and in reaching a conclusion, full consideration was given to the evidence gathered from the complainant, the company and the financial industry's regulatory body, the Financial Conduct Authority (FCA).

In the ruling, the Commissioner states that she was of the opinion that "[Swinton] has interfered with [an individual's] freedom to undertake a Welsh communication, and that this interference is not justified."

She further states that the "consequence of the interference in this instance is that an artificial situation has been created where members of [Swinton's] staff are required to speak English with individuals, whom they know to speak Welsh and wish to do so."



Yn unol ag adran 117 y Mesur wrth ddod i ddyfarniad ynglŷn â honiad o ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, caiff y Comisiynydd roi cyngor ynghylch yr ymyrraeth honedig. Dyma'r cyngor a roddwyd i Swinton:

“Mae Rhan 1 y Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Fel sefydliad sy'n cynnal ei fusnes yng Nghymru, dylai [Swinton] roi ystyriaeth lawn i'r statws swyddogol hwn trwy newid ei bolisi o ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth drafod cynnyrch ariannol gyda chwsmeriaid.”

Hwn oedd dyfarniad cyntaf y Comisiynydd mewn perthynas â honiad o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Crynodeb o ddyfarniad ac adroddiad ymchwiliad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Ar 14 Hydref 2014 cyhoeddwyd adroddiad ymchwiliad statudol i honiad o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg gan feddyg oedd yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ymchwiliwyd i'r achos wedi i riant wneud cais i'r Comisiynydd yn honni bod meddyg dan gyflogaeth y Bwrdd Iechyd wedi ymyrryd â'i rhyddid i siarad Cymraeg gyda'i phlentyn.

Cynhaliwyd ymchwiliad i'r achos dan Ran 6 Mesur y Gymraeg a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y riant a gan y Bwrdd Iechyd.

Yn y dyfarniad, noda'r Comisiynydd ei bod o'r farn “bod y meddyg wedi ymyrryd â rhyddid y riant a'r plentyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gyda'i gilydd.”

Casglodd y Comisiynydd nad oedd sail gyfreithiol i gyfiawnhau'r ymyrraeth â rhyddid y riant a'r plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd er mwyn gwarchod iechyd y plentyn a bod yr hyn ddigwyddodd yn anghymesur.

Yn unol ag adran 117 y Mesur rhoddwyd cyngor i'r Bwrdd Iechyd yn dweud y dylai adlewyrchu mewn dogfen bolisi nad yw'n caniatáu ymyrryd mewn sgysiau rhwng riant a phlentyn pan fo rheiny'n arfer eu rhyddid, i ystyried a thrafod y gofal iechyd a gynigir fel uned deuluol trwy gyfrwng y Gymraeg ac y dylai ymddiheuro i'r riant a'r plentyn am ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Cynghorodd y Comisiynydd hefyd y dylai unrhyw hyfforddiant y bwriedir ei gynnig fynd i'r afael yn llawn â gofynion Rhan 6 Mesur y Gymraeg fel na fydd staff o fewn cyflogaeth y Bwrdd Iechyd yn ymyrryd mewn modd anghyfiawn â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd.

In accordance with section 117 of the Measure when determining whether there has been an interference with the freedom to use Welsh, the Commissioner can provide advice in regard of the alleged interference. This is the advice given by the Commissioner to Swinton:

“Part 1 of the Measure gives the Welsh language official status in Wales. As an organization conducting its business in Wales, [Swinton] should fully recognise this official status by changing its policy of using the English language alone when discussing financial products with its customers in Wales.”

This was the first determination by the Commissioner in relation to an allegation of an interference with the freedom to use Welsh.

### **Summary of the ruling and report on the Betsi Cadwaladr University Health Board investigation**

On 14 October 2014 the Commissioner published a statutory investigation report into an allegation of interference with the freedom of an individual to use the Welsh language by a doctor working for the Betsi Cadwaladr University Health Board.

This case was investigated after a parent applied to the Commissioner alleging that a doctor in the employment of the Health Board had interfered with her freedom to speak in Welsh with her child.

The Commissioner conducted an investigation into the case under Part 6 of the Welsh Language Measure and full consideration was given to the evidence received by the complainant and by the Health Board.

In the ruling, the Commissioner states that she is of the opinion “that the doctor interfered with the parent and child's freedom to undertake a Welsh communication with one another.”

The Commissioner concluded that there was no legal basis to justify the interference with the parent and child's freedom to use the Welsh language with each other in order to protect the health of the child, and that what happened was disproportionate.

In accordance with section 117 of the Measure, the Commissioner advised the Health Board that it should reflect within a policy document that it does not condone interfering in conversations between parents and children who are exercising their freedom, to consider and discuss the healthcare offered to them as a family unit through the medium of Welsh, and that it should apologise to the parent and the child for interfering with their freedom to use the Welsh language together. The Commissioner also advised that any proposed training should fully comply with the requirements of Part 6 of the Welsh Language Measure to ensure that members of staff in the employment of the Health Board do not wrongfully intervene with individuals' freedom to use the Welsh language with each other.

## Pryderon

Mae pryder anstatudol yn golygu mynegiad o bryder am wasanaeth neu ddiffyg gwasanaeth gan unrhyw sefydliad nad yw'n gweithredu o fewn y gyfundrefn safonau, ac nad oes ganddo gynllun iaith statudol neu gynllun iaith gwirfoddol gan gorff statudol. Mae'n bosibl, serch hynny, bod y sefydliad yn gweithredu cynllun iaith gwirfoddol trydydd sector neu bolisi iaith gwirfoddol sector preifat sy'n cynnwys ymrwymiad at y gwasanaeth dan sylw.

Gan fod y sefydliadau hyn yn cael dylanwad sylweddol ar fywydau pobl o ddydd i ddydd, mae'r Comisiynydd yn gwahodd unigolion i leisio barn a phryderon am ddefnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau trydydd sector neu sector preifat yng Nghymru.

Pan fydd newidiadau cadarnhaol yn deillio o'r pryderon a godwyd bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r unigolyn. Cedwir cofnod o'r holl bryderon a godir a'u defnyddio i lywio'r gwaith hybu a hwyluso a cheisio newid polisi ac arferion sefydliadau sector preifat a thrydydd sector.

Un enghraifft yn ystod 2014–15 lle gweithredwyd yn llwyddiannus ar sail pryder oedd pan gysylltodd aelod o'r cyhoedd i nodi pryder ei fod wedi derbyn galwad ffôn gan Ymchwil Cancr Macmillan yn gofyn am gyfraniad i'r elusen yn Saesneg. Nid oedd yr unigolyn yn fodlon â'r ymateb a gafodd pan ofynnodd i'r elusen drefnu i siaradwr Cymraeg ei ffonio. Wedi cyflwyno pryder, ymddiheurodd yr elusen am y dryswch ac atgyfnerthu ei hymrwymiad i'r cynllun iaith. Ers hyn hefyd, maent wedi mynd ati i sicrhau bod staff eu canolfannau galw a chodi arian yn ymwybodol o'r cynllun.

Yn ystod 2014–15 derbyniwyd 124 o bryderon anstatudol. Ceir tabl yn nodi pob pryder a ddaeth i law yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## Arolygon

Erbyn diwedd 2014 roedd y Comisiynydd wedi sylwi ar gynnydd anarferol yn y pryderon a leisiwyd ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr, ac yr oedd llawer yn teimlo bod y banciau fel pe baent yn cymryd cam yn ôl yn hytrach na datblygu eu gwasanaethau Cymraeg i'w cwsmeriaid yng Nghymru.

Ar 22 Rhagfyr 2014 cyhoeddodd y Comisiynydd ei bod am gynnal adolygiad statudol o'r gwasanaethau Cymraeg mae banciau yn eu darparu. Estynnodd wahoddiad i'r cyhoedd rannu gwybodaeth am eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u banc yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r sector ariannol i ganfod beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Wedi casglu a dehongli'r dystiolaeth, bwriad y Comisiynydd yw llunio casgliadau a chyfres o argymhellion er mwyn gwella profiad cwsmeriaid yng Nghymru. Yr oedd yr adroddiad ar fin cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## Concerns

A non-statutory concern means expressing concern about a Welsh language service or lack of Welsh language service by any organization which does not operate in within the standards system, and which does not have a statutory language scheme or voluntary language scheme by a statutory body. It is possible, however, that the organization is implementing a third sector voluntary language scheme or private sector voluntary language policy which includes a commitment to provide the service in question.

As these organizations have substantial influence on people's day to day lives, the Commissioner invites individuals to voice opinions and concerns regarding use of the Welsh language by third sector or private sector organizations in Wales.

When positive changes result from the concerns raised, the Commissioner will contact the individual. A record of all concerns raised is kept and used to guide the work of promoting, facilitating and attempting to change the policies and practices of private sector and third sector organizations.

One example during 2014–15 where action was successfully taken on the basis of a concern was when a member of the public voiced a concern that they had received a telephone call from Macmillan Cancer Research seeking a contribution to the charity in English. The individual was not satisfied with the response received when he asked the charity to arrange for a Welsh speaker to call back. After the concern was submitted, the charity apologised for the confusion and reinforced its commitment to the language scheme. Since then, they have ensured that staff in their call centres and fundraising centres are aware of the scheme.

During 2014–15 a total of 124 non-statutory concerns were received. A table noting every concern received can be found in the Appendix to this Annual Report.

## Reviews

By the end of 2014 the Commissioner had seen a significant increase in the number of complaints from members of the public about the lack of Welsh language services by high street banks, and many felt that the banks seemed to be taking a step back rather than developing their Welsh language services for their customers in Wales.

On 22 December 2014 the Commissioner announced that she intended to conduct a statutory review of the Welsh language services offered by banks. She invited the public to share information regarding their experiences of using the Welsh language with their bank and also held discussions with the financial sector to find out what the obstacles and opportunities were to use the language.

Having collected and interpreted the evidence, the Commissioner intends to draft conclusions and a series of recommendations in order to improve customers' experience in Wales. The report was due to be published at the end of the reporting period.

### Cychwyn ac ymyrryd mewn achosion cyfreithiol

Yn unol ag adran 8 Mesur y Gymraeg, caiff y Comisiynydd gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath, os yw'n ymddangos bod yr achos yn un sy'n berthnasol i'w swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd dau gais am gymorth i ddwyn achos cyfreithiol. Roedd y ddau gais yn gysylltiedig ag un mater. Ar y ddau achlysur roedd y mater dan ystyriaeth y tu allan i'r cyfnod o dri mis a ganiateir gan lys i wrando achos. Ar y sail honno ni chefnogwyd y ceisiadau.

### Nodyn Hawliau Plant

Fel grŵp, mae plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd wrth geisio sicrhau cyfiawnder i unigolion. Dangosodd achosion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y gall diffyg gwasanaeth Cymraeg effeithio'n negyddol ar ddatblygiad ac ar ofal ac angen clinigol plant, a phobl ifanc bregus.

Er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i blant a phobl ifanc, lluniodd y Comisiynydd nodyn cyngor yn ymwneud â hawliau ieithyddol plant yng Nghymru. Bydd ymgynghori'n digwydd yn ystod hydref 2015 ac wedi hynny bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi'r nodyn cyngor.

### Instituting and intervening in legal cases

In accordance with section 8 of the Welsh Language Measure, the Commissioner may institute or intervene in legal proceedings in England and Wales, if it appears that the case is relevant to her functions.

During the year, two requests were received for assistance to institute legal proceedings. Both requests related to one matter. On both occasions the matter in question was outside the period of three months allowed by courts to hear a case. On that basis the requests were not supported.

### Note on Children's Rights

As a group, children and young people are a priority for the Commissioner in seeking to secure justice for individuals. The cases involving Hywel Dda University Health Board and Betsi Cadwaladr University Health Board showed that a lack of Welsh language services can negatively affect the development, and the care and clinical needs of children and vulnerable young people.

To increase the understanding of the need to provide Welsh language services to children and young people, the Commissioner prepared an advice note regarding the linguistic rights of children in Wales. Consultation will take place during the autumn of 2015 following which the Commissioner will publish the advice note.

## Amcan strategol 3: Ehangu a chryfhau ymrwymïadau iaith Gymraeg sefydliadau a gwella profiad siaradwyr Cymraeg

### Paratoi at ddyletswyddau cyfreithiol newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg yn creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf safonau'r Gymraeg. Ceir pum gwahanol fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a chadw cofnodion, ac y mae safonau'n ymwneud â gweithgareddau penodol o dan y penawdau hyn.

### Gosod a gorfodi safonau'r Gymraeg

Mae dwy swyddogaeth benodol i'r Comisiynydd yn y broses o osod safonau sef cynnal ymchwiliadau safonau ar ddechrau'r broses a rhoi hysbysiadau cydymffurfio er mwyn gosod dyletswyddau penodol ar sefydliadau. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw pennu cynnwys y safonau. Gwneir hynny mewn rheoliadau, sef is-ddeddfwriaeth a gyflwynir drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar ôl gosod safonau ar sefydliadau, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth.

### Cynnal ymchwiliadau safonau

Ymchwiliad safonau yw'r ymarferiad statudol lle mae'r Comisiynydd yn casglu tystiolaeth ar ffurf holiaduron gan sefydliadau, y cyhoedd a'r Panel Cynghori ynghylch pa safonau ddylai sefydliadau gydymffurfio â nhw. Cynhelir ymchwiliadau safonau mewn cyfres o gylchoedd ar hyn o bryd. Y nod yw cynnal ymchwiliadau safonau gyda'r holl sefydliadau a sectorau a enwir yn atodlenni Mesur y Gymraeg cyn gynted ag y bo modd.

#### Cylch 1

Cynhaliwyd ymchwiliadau safonau gyda'r 26 sefydliad yng Nghylch 1 rhwng 27 Ionawr a 18 Ebrill 2014. Y sefydliadau hyn oedd Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Rhodddwyd sylw i dystiolaeth oedd yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd gan y 26 sefydliad, 409 o aelodau'r cyhoedd a'r Panel Cynghori.

Ar 2 Mehefin 2014 cyflwynwyd adroddiadau safonau i Weinidogion Cymru. Roedd yr adroddiadau safonau'n nodi casgliadau'r Comisiynydd a'i rhesymau dros wneud pob gweithgaredd o fewn y safonau'n benodol gymwys i'r 26 sefydliad, lle bo'r gweithgareddau hynny yn cael eu darparu. Nododd hefyd safonau ychwanegol y dylid eu pennu.

## Strategic objective 3: To broaden and strengthen the Welsh language commitments of organizations and improve the experience of Welsh speakers

### Preparing for new legal duties under the Welsh Language (Wales) Measure 2011

The Welsh Language Measure creates a system for imposing Welsh language duties on organizations through Welsh language standards. There are five different kinds of standard, namely service delivery, policy making, operational, promotion and record keeping; and there are standards relating to specific activities under these headings.

### Imposing and enforcing Welsh language standards

The Commissioner has two specific functions in the process of imposing standards, namely to carry out standards investigations at the beginning of the process and to issue compliance notices in order to impose specific duties on organizations. The Welsh Government is responsible for determining the contents of standards. This is done in regulations, in the form of secondary legislation introduced through the National Assembly for Wales. After imposing standards on organizations, the Commissioner is responsible for enforcing compliance.

### Carrying out standards investigations

A standards investigation is the statutory exercise in which the Commissioner gathers evidence in the form of questionnaires from organizations, the public and the Advisory Panel regarding which standards organizations should comply with. Standards investigations are at present carried out in a series of rounds. The aim is to carry out standards investigations with all the organizations and sectors named in the Welsh Language Measure schedules as rapidly as possible.

#### Round 1

Standards investigations were carried out with the 26 organizations in Round 1 between 27 January and 18 April 2014. These organizations were County Councils and County Borough Councils in Wales, National Park Authorities and Welsh Ministers.

Consideration was given to evidence which included information submitted by the 26 organizations, 409 members of the public and the Advisory Panel.

On 2 June 2014 standards reports were presented to Welsh Ministers. The standards reports noted the Commissioner's conclusions and the reasons for making all activities within the standards specifically applicable to the 26 organizations, where those activities are provided. It also noted additional standards that should be specified.

Pan gyflwynwyd adroddiadau safonau Cylch 1 i Weinidogion Cymru, cyflwynwyd hefyd gyngor ynghylch materion a gododd yn ystod yr ymchwiliad. Cafwyd ymatebion o blith y cyhoedd a grwpiau diddordeb yn mynegi nad oedd yn glir iddynt a oedd modd rhoi barn ar safonau arfaethedig y Llywodraeth ai peidio a dewisodd ymatebwyr gyflwyno sylwadau ar y safonau i'r Comisiynydd. Penderfynwyd cyflwyno cyngor yn seiliedig ar y themâu a amlygwyd gan ymatebwyr a'u barn hwy ar y safonau arfaethedig, ac argymhellwyd y dylai Gweinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y safonau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan y Llywodraeth yn ystod tymor yr hydref 2014.

Yn dilyn y casgliadau a'r argymhellion yn adroddiadau safonau'r Comisiynydd ac yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys safonau, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru'r safonau ar ffurf rheoliadau drafft ar 3 Mawrth 2015. Pasiwyd y rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015. Ar sail y rheoliadau drafft, bydd y Comisiynydd yn mynd ati i lunio hysbysiadau cydymffurfio drafft unigol ar gyfer bob un o'r sefydliadau hyn, gyda'r nod o'u gosod ar sefydliadau ym mis Medi 2015, yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r sefydliadau ar yr hysbysiadau cydymffurfio.

#### Cylch 2

Ar ôl cynnal cyfres o gyfarfodydd briffio â'r sefydliadau a'r cyrff sy'n cynrychioli'r sectorau yng Nghylch 2 yn ystod tymor yr haf 2014, cynhaliwyd ymchwiliadau safonau gyda'r 119 sefydliad rhwng 17 Tachwedd 2014 a 6 Chwefror 2015. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys byrddau a chyrff iechyd, heddluoedd, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r 119 sefydliad ynghyd â gan 291 aelod o'r cyhoedd a'r Panel Cynghori, a bydd y Comisiynydd yn ystyried yr holl dystiolaeth hon wrth lunio adroddiadau safonau. Bydd yr adroddiadau safonau'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar 29 Mai 2015, a disgwylir i'r Llywodraeth ddrafftio rheoliadau safonau ar gyfer y cylch hwn yn ystod tymor yr hydref 2015.

#### Cylch 3

Yn ystod mis Mawrth 2015 cynhaliwyd cyfres o sesiynau briffio gyda'r sefydliadau a'r sectorau sy'n cynrychioli'r 64 sefydliad yn y cylch hwn. Mae'r sefydliadau'n cynnwys darparwyr tai cymdeithasol, adrannau Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr, Grŵp y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post. Gwnaed hyn er mwyn bod mewn sefyllfa i gychwyn yr ymchwiliadau safonau ym mis Mai 2015.

When Round 1 standards reports were presented to Welsh Ministers, advice was also given regarding matters that arose during the investigation. Responses were received from the public and interest groups stating that it was not clear to them whether it was possible to express an opinion on the Government's proposed standards or not, and respondents chose to submit comments on the contents of standards to the Commissioner. The Commissioner decided to give advice based on the themes highlighted by respondents and their opinions on the proposed standards, and it was recommended that Welsh Ministers should hold a public consultation on the contents of the standards. This consultation was held by the Government during autumn 2014.

Following the conclusions and the recommendations in the Commissioner's standards reports and in the public consultation on the contents of the standards, Welsh Ministers published the standards in the form of draft regulations on 3 March 2015. The regulations were passed by the National Assembly for Wales on 24 March 2015. Based on these regulations, the Commissioner will draft individual compliance notices for each of these organizations, with the aim of imposing them on organizations in September 2015 following a period of consultation with the organizations on the compliance notices.

#### Round 2

After holding a series of briefing meetings with Round 2 organizations and sector representative bodies during summer 2014, standards investigations were carried out with the 119 organizations between 17 November 2014 and 6 February 2015. These organizations included health boards and bodies, police forces, further and higher education organizations and public bodies in Wales.

Evidence was received from all of the 119 organizations together with 291 members of the public, and the Advisory Panel; and the Commissioner will consider all this evidence as she prepares her standards reports. The standards reports will be presented to Welsh Ministers on 29 May 2015, and the Government is expected to draft standards regulations for this round during autumn 2015.

#### Round 3

During March 2015 a series of briefing sessions were held with the 64 organizations and sector representative bodies organizations in this round. The organizations include social housing providers, UK Government departments, water companies, the Royal Mail Group and the Post Office. This was done in order to be in a position to start the standards investigations in May 2015.

### Heriau ac apelau

Yn ystod y flwyddyn cafodd Tribiwnlys y Gymraeg ei sefydlu drwy reoliadau statudol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gan unigolion yr hawl i fynd at y tribiwnlys hwn os ydynt am herio penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd mewn cysylltiad â chŵyn. Yn yr un modd mae gan sefydliad yr hawl i herio penderfyniadau'r Comisiynydd mewn cysylltiad ag afresymoldeb neu anghymesuredd y dyletswyddau a osodwyd arnynt o dan y drefn safonau.

Daw'r hawliau hyn yn weithredol unwaith y bydd sefydliadau wedi derbyn hysbysiadau cydymffurfio i weithredu safonau'r Gymraeg o dan y Mesur.

### Polisi gorfodi

Pwrpas polisi gorfodi yw egluro sut bydd y Comisiynydd yn ymdrin ag amheuon o fethiant i gydymffurfio a pha gamau y bydd fwyaf tebygol o'u cymryd o dan wahanol amgylchiadau. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr egwyddorion a'r prosesau y bydd yn eu dilyn wrth ymgymryd â'i gwaith gorfodi.

Lluniwyd polisi gorfodi drafft a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gynnwys rhwng 15 Medi a 10 Tachwedd 2014. Ymatebodd 47 o sefydliadau a mudiadau i'r ymgynghoriad a derbyniwyd sylwadau hefyd gan Banel Cynghori'r Comisiynydd. Cyhoeddwyd adroddiad trosolwg yn sgil cynnal yr ymgynghoriad ar wefan y Comisiynydd. Ar 26 Mawrth 2015 cafodd y polisi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 108 (4) Mesur y Gymraeg. Yn ystod mis Mawrth 2015 cafodd Gorchymyn Cychwyn ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru yn peri bod Rhan 5 y Mesur yn weithredol.

### Dyletswyddau cyfreithiol cyfredol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Hyd nes bod safonau'n cael eu gosod ar sefydliadau, mae cynlluniau iaith yn parhau mewn grym, ac mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau iaith newydd, monitro eu gweithrediad a chynnal ymchwiliadau statudol pan fo amheuaeth nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'i gynllun.

### Cynlluniau iaith sy'n weithredol

Ar 31 Mawrth 2015 roedd 566 o gynlluniau iaith yn weithredol. Maent yn cynnwys 353 gan sefydliadau cyhoeddus, 54 gan sefydliadau addysgol, 40 gan gyrff y Goron a phedwar gan gwmnïau preifat o dan ddyletswydd statudol. Yn ogystal roedd 12 cynllun iaith yn weithredol gan sefydliadau cyhoeddus ar sail wirfoddol, dau gan gwmni preifat ar sail wirfoddol a 101 gan y trydydd sector.

### Cymeradwyo cynlluniau iaith

Cafodd 16 cynllun iaith Gymraeg ei gymeradwyo yn ystod 2014–15. Cymeradwywyd cynlluniau iaith newydd gan bum sefydliad sef Coleg Cambria, Colegau Cymru a Creative and Cultural Skills, UK Commission for Employment and Skills, a Career Choices Dewis Gyrfya Cyf.

### Challenges and appeals

During the year the Welsh Language Tribunal was established through statutory regulations introduced by the Welsh Government.

Individuals will have the right to appeal to this tribunal if they want to challenge decisions made by the Commissioner in relation to a complaint. Similarly, the organization has the right to challenge the Commissioner's decisions in relation to the unreasonableness or disproportionality of the duties imposed upon them under the standards system.

These rights become operational once organizations have received compliance notices to implement Welsh language standards under the Measure.

### Enforcement policy

The function of an enforcement policy is to explain how the Commissioner will deal with suspected failure to comply and what actions will normally be taken under various circumstances. It also provides information regarding the principles and processes that will be followed in undertaking enforcement work.

A draft enforcement policy was prepared and a public consultation was carried out on its contents between 15 September and 10 November 2014. Forty seven organizations responded to the consultation and comments were received also from the Commissioner's Advisory Panel. An overview report was published as a result of the consultation on the Commissioner's website. On 26 March 2015 the policy was approved by Welsh Ministers in accordance with section 108 (4) of the Welsh Language Measure. During March 2015 a Commencement Order was issued by Welsh Ministers making Part 5 of the Measure operational.

### Current legal duties under the Welsh Language Act 1993

Until standards are imposed on organizations, language schemes remain in force, and the Commissioner is responsible for approving new language schemes, monitoring their implementation and conducting statutory investigations when suspicions arise that an organization is not complying with its scheme.

### Language schemes that are operational

On 31 March 2015, 566 language schemes were operational. They include 353 by public organizations, 54 by educational institutions, 40 by Crown bodies and four by private companies under statutory duty. Also, 12 language schemes were operational by public organizations on a voluntary basis, two by private companies on a voluntary basis and 101 by the third sector.

### Approval of language schemes

Sixteen Welsh language schemes were approved during 2014–15. New language schemes by five organizations were approved, namely Coleg Cambria, Colleges Wales and Creative and Cultural Skills, UK Commission for Employment and Skills, and Career Choices Dewis Gyrfya Cyf.

Cymeradwywyd 11 cynllun iaith diwygiedig gan y sefydliadau canlynol: Banc Lloegr, Cartrefi Cymunedol Merthyr, Grŵp Cynefin, Grŵp Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru, Grŵp Tai Pennaf, Prifysgol Cymru, Grŵp NPTC, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg y Cymoedd, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

### Gorolwg o weithrediad cynlluniau iaith

Ceir ymrwymiad mewn cynlluniau iaith i baratoi a chyflwyno adroddiad monitro. Hunanasesiad yw adroddiad monitro; ac mae'r Comisiynydd yn disgwyl i sefydliadau dystio eu bod yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith. Yr arfer wrth ymateb i adroddiadau monitro cynlluniau iaith yw bydd y Comisiynydd yn dwyn sylw at risgiau a dylanwadu ar berfformiad, a hynny er mwyn galluogi sefydliadau i gydymffurfio â'u hymrwymadau statudol. Yn ychwanegol i gadw gorolwg ar berfformiad drwy ymateb i adroddiadau monitro, mae'r Comisiynydd yn cynnal ymarferiadau gwirio ei hun.

Yn ystod 2014–15 ymatebwyd i 149 o adroddiadau monitro. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob un o'r prif sefydliadau i drafod materion yn codi yn yr adroddiadau monitro ac unrhyw bryderon oedd gan y Comisiynydd am berfformiad y sefydliadau. Caiff ymatebion i adroddiadau monitro eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Darparwyd crynodebau i Swyddfa Archwilio Cymru ar weithrediad cynlluniau iaith awdurdodau lleol. Adnabuwyd y prif flaenoriaethau canlynol ar gyfer cynlluniau iaith awdurdodau lleol:

- gwella'r dystiolaeth a'r data am sgiliau ieithyddol y gweithlu;
- parhau i gynyddu a gwella cynnwys Cymraeg gwefannau;
- sicrhau trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol cadarn ar y cynllun iaith;
- buddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg.

### Arolygon perfformiad

Cynhaliwyd cyfres o arolygon perfformiad er mwyn profi mewn modd annibynnol sut mae sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg. Roedd yr arolygon yn gyfuniad o waith oedd yn asesu beth oedd profiad defnyddwyr y Gymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau sefydliadau cyhoeddus ac arolygon oedd yn mesur agweddau rheolaethol sefydliadau dros weithrediad eu cynlluniau.

### Arolygon siopwr cudd

Cynhaliwyd pump arolyg siopwr cudd yn ystod 2014–15. Gwnaed hynny er mwyn gwybod beth oedd y profiad gwasanaeth cyfrwng Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd; sef gwasanaethau ar-lein, gwefannau, derbynfydd cyhoeddus, llinellau ffôn cymorth a ffurflenni i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru.

### Arolygon rheolaeth

Bu'r Comisiynydd hefyd yn gwirio arferion sefydliadau cyhoeddus o nodi gofynion ieithyddol wrth recriwtio i swyddi gwag. Digwyddodd hynny rhwng 1 Rhagfyr 2014 hyd at ddiwedd Mawrth 2015. Casglwyd gwybodaeth feintiol am 1,576 o swyddi a hysbysebwyd.

11 amended language schemes by the following organizations were approved: Bank of England, Merthyr Community Housing, Mid Wales Housing Association Group, Pennaf Housing Group, University of Wales, NPTC Group, University of Wales Trinity St David, Llandrillo Menai Group, Coleg y Cymoedd, and the Competition and Markets Authority.

### Overview of the implementation of language schemes

Language schemes include a commitment to prepare and present monitoring reports. A monitoring report is a self-assessment, and the Commissioner expects organizations to provide evidence that they are complying with their language schemes. It is customary, when responding to monitoring reports, that the Commissioner draws attention to risks and influences in relation to performance, in order to enable organizations to comply with their statutory commitments. As well as maintaining an overview of performance by responding to monitoring reports, the Commissioner conducts her own checking exercises.

During 2014–15 a response was provided to 149 monitoring reports. Meetings were held with all the main organizations to discuss matters arising from the monitoring reports and any concerns the Commissioner had regarding the performance of the organizations. Responses to monitoring reports are published on the Commissioner's website.

Summaries were provided for the Wales Audit Office on the implementation of local authority language schemes. The following main priorities were identified for the language schemes of local authorities:

- improve the evidence and data regarding the linguistic skills of the workforce;
- continue to increase and improve the Welsh language content of websites;
- ensure robust governance and internal scrutiny arrangements for the language scheme;
- to invest in Welsh language training.

### Performance surveys

A series of performance surveys were carried out to test independently how public organizations implement their Welsh language schemes. The surveys were a combination of assessments of the experiences of Welsh language users as they used public services provided by organizations and reviews measuring organizations' managerial attitudes towards implementing their schemes.

### Mystery shopper surveys

Five mystery shopper surveys were held during 2014–15. Their focus was to find out what was the experience of using Welsh medium services on-line, on websites, in public reception areas, through telephone helplines and on forms that are used by the public in Wales.

### Management surveys

The Commissioner also checked public organizations' practices when it comes to imposing linguistic requirements when recruiting for vacant posts. This took place between 1 December 2014 and the end of March 2015. Quantitative information was collected regarding 1,576 posts advertised.

### Arolwg o drefniadau asesu effaith polisiau ar y Gymraeg

Cynhaliwyd arolwg o drefniadau asesu effaith polisiau ar y Gymraeg gyda 26 o sefydliadau cyhoeddus. Bwriedir cyhoeddi canfyddiadau mewn adroddiad sicrwydd yn ystod mis Hydref 2015.

### Achosion eraill a ystyriwyd

#### Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Dechreuodd Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar y broses o recriwtio ar gyfer dwy swydd uwch reoli ym mis Tachwedd 2014. Yn groes i ymrwymadau Cynllun Iaith gwirfoddol y sefydliad penderfynodd y Bwrdd Rheoli fynd ati i hysbysebu'r ddwy swydd yma heb gynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel rhagofyniad hanfodol ar eu cyfer. Yn sgil hynny, derbyniodd y Comisiynydd nifer o ymholiadau a chwynion gan aelodau o'r cyhoedd.

Gohebodd y Comisiynydd â'r sefydliad yn gofyn beth oedd y rhesymau dros beidio â chynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel rhagofyniad hanfodol. Gofynnodd am oedi'r broses recriwtio er mwyn caniatáu amser i'r sefydliad ymateb ac iddi hithau gael amser i ystyried cynnwys yr ymateb hwnnw. Gwrthododd y sefydliad y cais i oedi'r broses, a phenodwyd unigolion i ymgymryd â'r ddwy swydd ym mis Mawrth 2015.

Lluniwyd adroddiad dan adran 4 Mesur y Gymraeg er mwyn creu cofnod o ymwneud y Comisiynydd â Chartrefi Cymunedol Gwynedd mewn perthynas â'r achos dan sylw, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymdrechion y Comisiynydd i dderbyn gwybodaeth gan y sefydliad.

#### Trafnidiaeth i ysgolion

Mae pryderon wedi eu lleisio bod rhai awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau cludiant i addysg ôl-16 er mwyn gwneud arbedion ariannol.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan "r[h]aid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn."

Cyflwynwyd cyngor i awdurdodau lleol ar yr angen i gynnal asesiadau effaith iaith cyn iddynt newid eu polisiau cludiant. Tynnodd y Comisiynydd sylw'r Gweinidog dros Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at yr angen i roi cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol ynglŷn â'u dyletswydd statudol o dan adran 10 y Mesur.

### Adrannau Llywodraeth y DU

Yn ystod 2014–15 bu un o swyddogion y Comisiynydd ar secondiad yn Swyddfa Cymru. Cyfrannodd y swyddog tuag at adolygiad Swyddfa Cymru o'r graddau mae adrannau San Steffan yn cwrdd â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol o ran y Gymraeg yn ogystal ag ystyried i ba raddau bydd modd iddynt gwrdd â gofynion Mesur y Gymraeg.

### Survey of the arrangements for assessing the impact of policies on the Welsh language

A survey was held of 26 public organizations' arrangements for assessing the impact of policies on the Welsh language. The Commissioner is due to publish the findings in an assurance report in October 2015.

### Other cases considered

#### Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Cartrefi Cymunedol Gwynedd commenced the recruitment process for two senior management posts in November 2014. Contrary to the commitments noted in the organization's voluntary Welsh Language Scheme, the management board decided to advertise these two posts without including the ability to speak Welsh as an essential requirement. As a result, the Commissioner received a number of inquiries and complaints from members of the public.

The Commissioner corresponded with the organization making inquiries as to the reasons for not including the ability to speak Welsh as an essential requirement. The Commissioner requested that the recruitment process be delayed in order to allow time for the organization to respond and for her to have time to consider the content of their response. The organization refused the request to delay the process and individuals were appointed to undertake the two posts in March 2015.

The Commissioner produced a report under section 4 of the Welsh Language Measure recording the Commissioner's involvement with Cartrefi Cymunedol Gwynedd in relation to this matter, focussing specifically on the Commissioner's efforts to obtain information from the organization.

#### School transport

Concerns have been raised that some local authorities, in order to gain cost savings, are reviewing transport arrangements for post 16 education.

The Learner Travel (Wales) Measure 2008 states "Each local authority and the Welsh Ministers must promote access to education and training through the medium of the Welsh language when exercising functions under this Measure."

Advice was given to local authorities on the need to conduct language impact assessments before changing their transport policies. The Commissioner drew the Economy, Science and Transport Minister's attention to the need to give local authorities clear direction in terms of their statutory duties under section 10 of the Measure.

### UK Government Departments

During 2014–15 one of the Commissioner's officers was seconded to the Wales Office. The officer contributed towards a Wales Office review of the degree to which Whitehall departments meet current legislative requirements in terms of the Welsh language as well as considering to what degree they will be able to meet the requirements of the Welsh Language Measure.



## Amcan strategol 4: Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

Er mwyn creu Cymru lle gall unigolion ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen i'r Gymraeg gael ei gweld, ei chlywed a'i defnyddio gan bob math o sefydliad, nid dim ond yn y sector cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd, felly, yn gweithio i annog, hybu a hwyluso'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg busnesau a sefydliadau'r trydydd sector.

Er mwyn sicrhau bod y sgiliau, yr wybodaeth a'r adnoddau perthnasol ar gael i sefydliadau ac unigolion, cesglir arferion da sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'u rhannu ag eraill yn y sector, ynghyd â chynnig cyfleoedd i addysgu a chynghori sefydliadau sut i ddefnyddio'r iaith.

### Cynllun hybu'r Gymraeg

Ym mis Mawrth 2015 lanswyd gwefan newydd ar gyfer busnesau a mudiadau trydydd sector i'w hannog i ddatblygu a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am fuddion defnyddio'r Gymraeg, a chymorth ymarferol ar sut i fynd ati i ddatblygu a chynyddu defnydd o'r iaith.

Rhan greiddiol o'r wefan yw'r Cynllun Hybu, sef arf i alluogi busnesau a sefydliadau trydydd sector i gynllunio eu defnydd o'r Gymraeg gyda phwyslais ar geisio cynyddu'r defnydd hwnnw dros amser.

[comisiynyddygybraeg.org/hybu](http://comisiynyddygybraeg.org/hybu)

### Canllawiau

Cyhoeddwyd amrywiol ganllawiau er mwyn cynorthwyo sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Maent yn cynnwys canllaw dylunio dwyieithog sy'n nodi'r arferion gorau ar gyfer dylunio deunydd dwyieithog. Ceir enghreifftiau ar gyfer pob math o brosiectau dylunio ynddo, o daflenni gwybodaeth ac anfonebau i wefannau a pheccynnau bwyd.

Yn dilyn ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes, cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen gyngor, 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg'. Mae'r ddogfen gyngor yn cynnig canllawiau technegol yn ogystal ag egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynulleidfa mwy annhechnegol.

Ceir hefyd canllawiau ar yr is-wefan Hybu mewn perthynas â defnyddio technoleg a chynnal digwyddiadau dwyieithog.

## Strategic objective 4: To promote and facilitate the use of the Welsh language

In order to create a Wales where individuals can choose to live their lives through the medium of Welsh, the Welsh language needs to be seen, heard and used by all kinds of organizations, not only in the public sector. The Commissioner, therefore, works to encourage, promote and facilitate opportunities to use Welsh among businesses and third sector organizations.

To ensure that the relevant skills, information and resources are available to organizations and individuals, good practice regarding the Welsh language is gathered and shared with others in the sector, and opportunities are offered to educate and advise organizations on how to use the language.

### Welsh language progress plan

In March 2015 a new website was launched for businesses and third sector organizations to encourage them to develop and increase their use of the Welsh language. The website includes information on the benefits of using the Welsh language, and practical support regarding how to develop and increase the use of the language.

Central to the website is the Language Progress Plan, which is a tool to enable businesses and third sector organizations to plan their use of the Welsh language with emphasis on attempting to increase that use over time.

[welshlanguagecommissioner.org/hybu](http://welshlanguagecommissioner.org/hybu)

### Guidelines

Various guidelines have been published to assist organizations to use the Welsh language.

They include a bilingual design guide which notes best practice for designing bilingual material. It includes examples for all kinds of design projects, from information sheets and invoices to websites and food packaging.

After consulting with experts in the field, the Commissioner published an advice document 'Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations'. The advice document offers technical guidelines as well as general principles for a non-technical audience.

The Hybu microsite includes guidelines on technology and holding bilingual events.

## Hyfforddi

Yn ystod 2014–15 cynhaliodd swyddogion y tîm Hybu a Hwyluso 11 o sesiynau hyfforddi ac addysgu i wahanol grwpiau a sectorau ar draws Cymru ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail wirfoddol. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys hyfforddiant i naw o wahanol elusennau plant, 11 camp chwaraeon a 10 elusen pobl hŷn ymysg eraill. Wrth gasglu adborth ar ddiwedd y sesiynau hyfforddiant, dywedodd 80% o'r ymatebwyr i ansawdd yr hyfforddiant fod yn 'ardderchog' a dywedodd yr 20% arall fod yn hyfforddiant yn 'dda'. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i rannu arferion da a chanllawiau ynghyd â chasglu gwybodaeth gan y sefydliadau oedd yn mynychu am y buddiannau a'r rhwystrau yr oeddynt yn eu profi wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

## Ymchwil

Cyfeiriwyd o dan Amcan Strategol 1 ar dudalennau 30 a 32 at y gwaith ymchwil a gynhaliwyd er mwyn cael tystiolaeth a data i gefnogi a pherswadio busnesau a sefydliadau trydydd sector i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

### Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru

Yn Ffair Aeaf y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol ar 1 Rhagfyr 2014 lansiodd adroddiad ymchwil ar werth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru.

Fel rhan o'r ymchwil, cyfwelwyd â chwmnïau bwyd a diod o wahanol rannau o'r wlad er mwyn canfod beth yw'r manteision o ddefnyddio'r Gymraeg o'u profiad hwy. Canfyddiadau strategol yr ymchwil yw bod defnyddio'r Gymraeg yn:

- gwneud i'r cynnyrch sefyll allan;
- cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd;
- atgyfnerthu delwedd brand;
- sicrhau cefnogaeth cwsmeriaid;
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynnyrch;
- atgyfnerthu tarddiad lleol;
- arwydd o ansawdd.

### Buddion Marchnata Dwyieithog gan Elusennau yng Nghymru

Ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ar 7 Awst 2014 lansiodd canlyniadau ymchwil ar effaith marchnata dwyieithog wrth i elusennau godi arian. Prif ganlyniadau'r ymchwil oedd:

- Mae 29% yn fwy tebygol o ddweud wrth eraill am elusen os yw'n marchnata'n ddwyieithog. Dim ond 1% oedd yn dweud y byddai marchnata dwyieithog yn cael effaith negyddol ar hyn;
- Dim ond 2% sy'n dweud bod marchnata dwyieithog yn cael effaith negyddol ar faint o arian sy'n cael ei roi i elusennau;
- Mae 70% yn cytuno neu cytuno'n gryf y dylai elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru farchnata'n ddwyieithog.

## Training

During 2014–15 the Commissioner's Promotion and Facilitation officers held 11 training and educating sessions for various groups and sectors across Wales on how to use the Welsh language on a voluntary basis. These sessions included training for nine different children's charities, 11 sports activities and 10 charities for older people, among others. When gathering feedback at the end of the training sessions, 80% of the respondents said that the quality of the training was 'excellent' and the other 20% said that the training was 'good'. These sessions were an opportunity to share good practices and guidelines as well as to collect information from the organizations present regarding the benefits and obstacles they experienced when using the Welsh language.

## Research

Reference was made under Strategic Objective 1 on pages 31 and 33 to the research work carried out to obtain evidence and data to support and persuade businesses and third sector organizations to increase their use of the Welsh language.

### The value of the Welsh language to the food and drink sector in Wales

In the Royal Welsh Agricultural Society Winter Fair on 1 December 2014 a research report into the value of the Welsh language to the food and drink sector in Wales was launched.

As part of the research, food and drink companies from various parts of the country were interviewed to discover what are the advantages of using Welsh in their experience. The strategic findings of the research were that using the Welsh language:

- makes the product stand out;
- offers opportunities to sell in new markets;
- reinforces the company's brand identity;
- secures the support of customers;
- increases awareness of the product;
- strengthens local sourcing;
- is a sign of quality.

### The Advantages of Bilingual Marketing by Charities in Wales

At the National Eisteddfod on 7 August 2014 the results of research into the effect of bilingual marketing for charities when they are fundraising were launched. The main outcomes of the research were:

- 29% are more likely to tell others about a charity if their marketing is bilingual; Only 1% said that bilingual marketing would have a negative impact on this;
- Only 2% say that bilingual marketing has a negative impact on the amount of money given to charities;
- 70% agreed or agreed strongly that charities operating in Wales should use bilingual marketing.

### Astudiaeth achos: y Gymraeg a chwaraeon

Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol a hamdden, gweithiwyd â'r cymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o hyfforddiant, cystadlaethau a diwylliant chwaraeon. Ar 30 Mawrth 2015 daethpwyd â'r cymdeithasau chwaraeon at ei gilydd mewn seminar i drafod y cynnydd o ran datblygu defnydd o'r Gymraeg a sut gellir symud ymlaen i ehangu'r defnydd o'r iaith ymhellach eto. Cynhaliwyd y seminar ar y cyd rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Chwaraeon Cymru.

Wrth symud ymlaen, bydd y swyddogion Hybu a Hwyluso yn mynd ati i baratoi canllaw ar hyfforddiant dwyieithog ar sail profiadau ystod o gymdeithasau chwaraeon. Bydd y canllaw yn gymorth ymarferol i glybiau lleol ar sut i gynnal sesiynau hyfforddiant a chystadlaethau lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o'r chwarae a lle gall y Gymraeg a'r Saesneg fodoli ochr yn ochr â'i gilydd.

### Cyfieithu

Er mwyn cyfrannu tuag at gryfhau'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg / Saesneg, mae'r Comisiynydd wedi ariannu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru am dair blynedd i ddatblygu'n rheoleiddiwr dros y proffesiwn.

Bu swyddog o swyddfa'r Comisiynydd ar secondiad gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rhwng 2013 a 2014 yn gweithio ar brosiect datblygu fframwaith astudiaethau cyfieithu Cymraeg / Saesneg cenedlaethol. Mae Prifysgol Aberystwyth bellach yn arwain ar y prosiect hwn a'r bwriad yw y bydd yn cynnig cymhwyster astudiaethau cyfieithu ar y cyd â phrifysgolion eraill o 2015 ymlaen. Sefydlwyd Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu hefyd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth astudiaethau cyfieithu yn cwrdd â gofynion y proffesiwn cyfieithu a sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau cyfieithu.

### Enwau lleoedd

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru ac mae panel o arbenigwyr yn darparu cyngor arbenigol ac annibynnol i'r Comisiynydd i wneud hynny. Cyfarfu'r Panel Safoni Enwau Lleoedd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac fe gynghorwyd nifer o unigolion a sefydliadau ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd gan gynnwys yr Arolwg Ordnans er mwyn cywiro camgymeriadau hanesyddol yn eu data.

### Case study: the Welsh language and sport

To increase the opportunities to use the Welsh language in informal and leisure contexts, work was done with the sports associations to ensure that the Welsh language is an integral part of sports training, competitions and culture. On 30 March 2015, the sports associations were brought together in a seminar to discuss progress in terms of developing use of the Welsh language and how they could move forward to further expand their use of the language. The seminar was held jointly by the Welsh Language Commissioner and Sport Wales.

In moving forward, the Commissioner will prepare a guide on bilingual training based on the experiences of a range of sports associations. The guide will provide practical support to local clubs on how to hold training sessions and competitions where Welsh is a natural part of play and where both Welsh and English exist side by side.

### Translation

In order to contribute to strengthen the Welsh / English translation profession, the Commissioner has funded Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru — the Association of Welsh Translators and Interpreters — for a period of three years to develop as a regulator for the profession.

An officer from the Commissioner's office was seconded to the Coleg Cymraeg Cenedlaethol between 2013 and 2014, working on a project to develop a national Welsh / English translation framework. Aberystwyth University is now leading on this project and it is proposed to offer a translation studies qualification jointly with other universities from 2015 onwards. A Translation Studies Consortium has also been established to ensure that the translation studies provision meets the requirements of the translation profession and the organizations that make use of translation services.

### Place names

The Commissioner is responsible for recommending the standard forms of place names in Wales and the Commissioner receives specialist and independent advice from a panel of experts in doing so. The Welsh Place Names Standardization Panel met four times during the year and a number of individuals and organizations were advised regarding the standard forms of place names including the Ordnance Survey in order to correct historical errors in their data.

## Cyfathrebu

Er mwyn cynnal trafodaeth gyda'r cyhoedd roedd gan y Comisiynydd bresenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bala, y Sioe Fawr yn Llanellwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn ystod haf 2014.

Yn y Sioe Fawr fe gyhoeddwyd canlyniadau interim yr ymchwil i werth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod. Cynhaliwyd tri cyfarfod cyhoeddus ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, yn canolbwyntio ar ganfyddiadau ac argymhellion yr ymholiad gofal sylfaenol, sut gall cwynion arwain at hawliau a lansio canfyddiadau ymchwil i werth marchnata'n ddwyieithog i elusennau.

Trafodwyd â nifer o grwpiau sy'n cynrychioli gwahanol garfannau o'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd ynglŷn â phontio rhwng y Gymraeg a'r amrywiol gymunedau ffydd ac ethnig, cyfarfodydd â chynrychiolwyr o rai o enwadau Cristnogol Cymru, sesiynau rhannu gwybodaeth â mudiadau sy'n cynrychioli'r cyhoedd fel Merched y Wawr, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith Cymru, Dathlu'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Dyfodol i'r Iaith.

Defnyddir y cyfrif trydar @ComyGymraeg i rannu gwybodaeth â dilynwyd ac i gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol. Ar 31 Mawrth 2015 roedd gan y Comisiynydd 3,159 o ddilynwyd ar Twitter — cynnydd o 935 (42%) ers 31 Mawrth 2014.

## Materion cyhoeddus

Yn ogystal â'r cyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Weinidog Cymru yn sgil ei rôl fel Gweinidog â chyfrifoldeb am y Gymraeg, mae'r Comisiynydd hefyd yn cwrdd yn chwarterol â llefarwyr y pleidiau ar y Gymraeg yn y Cynulliad, a chynhaliodd 17 o gyfarfodydd â gwahanol Aelodau Seneddol ac Arglwyddi. Nod y cyfarfodydd hyn yw sicrhau dealltwriaeth ynglŷn â rôl y Comisiynydd a'r materion y mae angen pwysau gwleidyddol i'w datrys.

Mae swyddogion y Comisiynydd yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gymraeg yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Parhaodd Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, a'i swyddfa hi sy'n gyfrifol am ysgrifenyddiaeth y gymdeithas rhwng 2014 a 2016. Mae'r gymdeithas yn fodd i'r comisiynwyr drafod a rhannu syniadau a phrofiadau am sut gellir sicrhau hawliau siaradwyr ieithoedd brodorol ac ieithoedd lleiafrifol. Daw aelodau eraill o Ganada, Sri Lanka, De Affrica, Kosovo, Gwlad Belg, Iwerddon a Sbaen.

Ym mis Rhagfyr 2014 croesawyd Comisiynydd Iaith Kosovo i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yng Nghaernarfon. Yn ystod ei ymweliad tridiau, cafodd gyfle i ddysgu am waith y gwahanol gyfarwyddiaethau yn ogystal â gweld sut mae Heddlu Gogledd Cymru ac S4C yn gweithredu.

## Communication

To foster communication with the public, the Commissioner had a presence at the Urdd Eisteddfod in Bala, the Royal Welsh Show and the National Eisteddfod in Llanelli during summer 2014.

At the Royal Welsh Show, the interim results of the research into the value of the Welsh language to the food and drink sector were published. Three public meetings were held on the National Eisteddfod field, focussing on the findings and recommendations of the primary care inquiry, how complaints can lead to establishing rights, and launching the findings of the research into the value of bilingual marketing for charities.

Discussions were held with a number of groups representing various sections of the public during the year. These included meetings about building bridges between the Welsh language and the various faith and ethnic communities, meetings with representatives of some of the Christian denominations in Wales, information sharing sessions with movements representing the public such as Merched y Wawr, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith Cymru, Dathlu'r Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg and Dyfodol i'r Iaith.

The Twitter account @ComyGymraeg is used to share information with followers and to communicate with external stakeholders. On 31 March 2015, the Commissioner had 3,159 followers — an increase of 935 (42%) since March 2014.

## Public matters

As well as the quarterly meetings with the First Minister by virtue of his role as Minister with responsibility for the Welsh language, the Commissioner also meets quarterly with the party political spokespersons on the Welsh language in the Assembly, and also held 17 meetings with various Members of Parliament and of the House of Lords. The aim of these meetings is to ensure understanding about the Commissioner's role and the matters in which political pressure is needed to resolve them.

The Commissioner's officers are members of the Cross Party Group on the Welsh language in the National Assembly for Wales.

The Welsh Language Commissioner continued to be a member of the International Association of Language Commissioners and her office is responsible for the association's secretariat between 2014 and 2016. The association is a way for the commissioners to discuss and share ideas and experiences regarding how the rights of indigenous and minority languages speakers can be ensured. Other members come from Canada, Sri Lanka, South Africa, Kosovo, Belgium, Ireland and Spain.

In December 2014 the Language Commissioner of Kosovo was welcomed to the Welsh Language Commissioner's office in Caernarfon. During his three-day visit, he had the opportunity to learn about the work of the various directorates, as well as to see how North Wales Police and S4C operate.

Mynychodd swyddogion y Comisiynydd gynhadledd flynyddol Cymdeithas yr Ombwdsmon ym Manceinion. Hefyd fe fynychodd aelod o'r Tîm Rheoli ddau gyfarfod o'r is-grŵp cyfathrebu gan gyflwyno papur ar gymharu gwefannau wahanol Ombwdsmon.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfarfodydd gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fesul un ac fel grŵp. Prif bynciau trafod y cyfarfodydd oedd sicrhau cydlynid strategol ein gweithgareddau. Yn ogystal, cyfarfu grŵp o uwch swyddogion y Comisiynwyr ac Ombwdsmon ddwywaith er mwyn trafod rhannu adnoddau.

The Commissioner's officers attended the Ombudsman Association's annual conference in Manchester. Also, a member of the Commissioner's Management Team attended two meetings of the communication sub-group, delivering a paper on comparing the websites of various Ombudsmen.

During the year meetings were held with the Children's Commissioner for Wales, the Older People's Commissioner and the Public Services Ombudsman for Wales, one to one and as a group. The main discussion subjects at these meetings were to ensure the strategic co-ordination of activities. Also a group of senior officers from the Commissioners' offices and the Ombudsman met twice to discuss sharing resources.

## Amcan strategol 5: Creu sefydliad iach a gweithredu'n briodol

### Canlyniadau a chyfeddiant

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015 oedd £3,690,000 (2013–14: £4,100,000). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,738,000 (2013–14: £4,343,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £60,000 (2013–14: £40,000). Ar 31 Mawrth 2015 roedd £563,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2014: £611,000).

72

	2013–14 Alldro £000	2014–15 Alldro £000	2014–15 <sup>1</sup> Cyllideb £000	2015–16 <sup>2</sup> Cyllideb £000
Grantiau	88	78	78	60
Costau swyddogion	2,358	2,074	2,367	2,227
Cynllun ymadael gwirfoddol	445	72	—	—
	<u>2,803</u>	<u>2,146</u>	<u>2,367</u>	<u>2,227</u>
<b>Gweinyddu</b>				
Llety: Rhent	110	114	114	117
Llety: Costau eraill	205	202	169	185
Atgyweirio swyddfeydd	3	3	—	—
Teithio a chynhaliadau	122	99	110	102
Hyfforddiant a recriwtio	106	91	85	65
Cyfreithiol a phroffesiynol	118	135	161	159
Technoleg gwybodaeth	131	137	122	142
Cyfathrebu	88	99	71	44
Archwilwyr allanol	16	17	16	17
Gweinyddu arall	70	61	59	55
	<u>969</u>	<u>958</u>	<u>907</u>	<u>886</u>
Rhaglenni	402	481	450	156
Cyfalaf a dibrisiant	85	77	40	61
Gwariant Net	<u>4,347</u>	<u>3740</u>	<u>3,842</u>	<u>3,390</u>
Llog a dderbyniwyd	(4)	(2)	—	—
Gwariant net ar ôl llog	<u>4,343</u>	<u>3,738</u>	<u>3,842</u>	<u>3,390</u>

<sup>1</sup> Cyllideb fewnol y cytunwyd arni cyn ddechrau'r flwyddyn ariannol wedi derbyn hysbysiad o'r toriad i'r gyllideb, cyn unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â chynllun ymadael gwirfoddol

<sup>2</sup> Cyllideb fewnol

## Strategic objective 5: To create a healthy organization and operate appropriately

### Results and appropriations

The Welsh Language Commissioner is a corporation sole funded by Welsh Ministers. The total funding for the year 1 April 2014 to 31 March 2015 was £3,690,000 (2013–14: £4,100,000). The net expenditure after interest for the year was £3,738,000 (2013–14: £4,343,000), with capital expenditure of £60,000 (2013–14: £40,000). At 31 March 2015 the general reserve was £563,000 (31 March 2014: £611,000).

73

	2013–14 Outturn £000	2014–15 Outturn £000	2014–15 <sup>1</sup> Budget £000	2015–16 <sup>2</sup> Budget £000
Grants	88	78	78	60
Officers' costs	2,358	2,074	2,367	2,227
Voluntary exit scheme	445	72	—	—
	<u>2,803</u>	<u>2,146</u>	<u>2,367</u>	<u>2,227</u>
<b>Administration</b>				
Accommodation: Rent	110	114	114	117
Accommodation: Other costs	205	202	169	185
Office dilapidations	3	3	—	—
Travel and subsistence	122	99	110	102
Training and recruitment	106	91	85	65
Legal and professional	118	135	161	159
Information technology	131	137	122	142
Communication	88	99	71	44
External audit fee	16	17	16	17
Administration other	70	61	59	55
	<u>969</u>	<u>958</u>	<u>907</u>	<u>886</u>
Programme costs	402	481	450	156
Capital and depreciation	85	77	40	61
Net Expenditure	<u>4,347</u>	<u>3740</u>	<u>3,842</u>	<u>3,390</u>
Interest receivable	(4)	(2)	—	—
Net expenditure after interest	<u>4,343</u>	<u>3,738</u>	<u>3,842</u>	<u>3,390</u>

<sup>1</sup> Internal budget approved at the beginning of the financial year, after being notified of the cut in the budget, and before any announcement relating to the voluntary exit scheme

<sup>2</sup> Internal budget

Caiff y Comisiynydd, yn unol ag Adran 9 Mesur y Gymraeg, ddarparu cymorth i unigolyn mewn achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr i fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd. Nid oes cyllideb wedi ei dyrannu gan Weinidogion Cymru ar gyfer y cymorth hwn. Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd y byddai'n briodol yn ystod y blynyddoedd cyntaf i'r Comisiynydd adeiladu cronfa wrth gefn o danwariant y gyllideb flynyddol.

### Sylwadau ar alldro yn y cyfnod ac amrywiant o'r gyllideb

#### Costau swyddogion

Roedd costau cyflogau £293,000 yn llai na chyllideb 2014–15. Cyhoeddwyd cynllun ymadael gwirfoddol er mwyn galluogi'r rheiny oedd yn dymuno gadael cyflogaeth y Comisiynydd i wneud hynny lle bo'n ymarferol bosibl. Yn dilyn hyn bu ymgynghoriad â swyddogion a chydweithio gyda'r undeb ar strwythur staffio newydd. Pwrpas hyn oedd creu strwythur fyddai'n fwy addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd, ac ymateb i'r toriad o 10% i gyllideb 2014–15. Paratowyd y gyllideb hon cyn cyhoeddi cynllun ymadael gwirfoddol.

Cyflogwyd 45.0 swyddog cywerth â llawn amser yn ystod 2014–15, tri swyddog yn llai na'r strwythur arfaethedig. Cyflogwyd llai o swyddogion na adlewyrcha'r strwythur staffio dros y flwyddyn ariannol ar gyfartaledd oherwydd treuliydwyd cyfnod yn rhoi'r strwythur newydd ar waith, gyda'r swyddi olaf yn cael eu llenwi ddechrau mis Ionawr 2015. Hwn yw'r prif reswm dros yr arbediad yng nghostau cyflogau.

Gwelir bod costau cyflogaeth yn cynyddu yn 2015–16 wrth i bob swydd gael ei llenwi. Hefyd mae amcangyfrif o 1% ar gyfer cynnydd yng nghostau cyflogau o 1 Ebrill 2015. Nid oes cyhoeddiad wedi bod gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â setliad cyflog 2015–16. Bydd cynnydd sy'n uwch na 1% yn straen ar y gyllideb. Yn 2016–17 bydd newid i'r cynllun pensiwn yn golygu bydd cynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil yn gynlluniau sydd wedi eu contractio mewn. Amcangyfrifir bydd hyn yn ychwanegu tua £40,000 at gostau cyflogau'r sefydliad.

Pan luniwyd cyllideb 2014–2015 a phan adroddwyd ar alldro 2013–14 darparwyd ar gyfer holl gostau'r cynllun ymadael gwirfoddol a ragwelwyd. Yn ystod 2014–2015, ymadawodd un swyddog dan yr un telerau. Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn rhagweld unrhyw ail strwythuro pellach. I'w gymharu â'r achos busnes, bydd holl gostau'r cynllun ymadael gwirfoddol wedi eu hadennill o fewn ychydig dros 2 flynedd.

#### Llety

Etifeddwyd ystâd swyddfeydd a oedd yn lletya cyn-sefydliad llawer mwy o gymharu â'r nifer presennol. Yn dilyn yr ailstrwythuro bu cyfnod o ad-drefnu gofynion swyddfeydd er mwyn darparu gofod addas yn cyfateb â lleoliadau swyddogion, a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.

Ildiwyd les ar swyddfa Caerdydd yn gynnar gan arbed costau rhent a gwasanaethau. Hefyd ad-drefnwyd y swyddfa, oherwydd lleihad yn yr angen am ofod. Roedd cost i gyflawni'r newid, ond trwy ryddhau 40% o'r gofod a chreu opsiynau i ildio neu osod, gallai costau swyddfa Caerdydd leihau yn y dyfodol.

The Commissioner may provide, in accordance with Section 9 of the Welsh Language Measure, an individual with assistance for actual or possible legal proceedings in England and Wales into a matter that is relevant to the Commissioner's functions. No budget has been allocated by Welsh Ministers for this assistance. Following discussions it was decided that it would be appropriate during the initial years for the Commissioner to build a reserve from annual budget under spend.

### Commentary on the outturn for the period and variances from budget

#### Officers' costs

Salary costs were £293,000 less than budget for 2014–15. A voluntary exit scheme was announced in order to enable those wishing to leave the employment of the Commissioner to do so where practicable. Following this there was consultation with officers and collaboration with the Union on the new staffing structure. The purpose of this was to create a structure that would be more suitable for responding to the Commissioner's functions, and in response to a cut of 10% to the 2014–15 budget. This budget was prepared before the publication of the voluntary exit scheme.

45.0 full time equivalent officers were employed during 2014–15, three officers less than the proposed structure. Fewer officers were employed during the year on average, than reflected in the staffing structure because a period of time was spent putting the new structure in place, with the final appointments made in early January 2015. This is the main reason for the saving in the cost of salaries.

It can be seen that budgeted employment costs increase in 2015–16 as every post is filled. There is also an estimated 1% for an increase in the cost of salaries from 1 April 2015. There has been no announcement by the Welsh Government regarding the 2015–16 pay settlement. Any increase higher than 1% will be a strain on the budget. In 2016–17 there will be a change to the pension plan resulting in the civil service pension schemes becoming contracted-in. It is estimated this will add around £40,000 to the employment costs of the organization.

When the 2014–2015 budget was planned and the 2013–14 outturn reported all costs relating to the voluntary exit scheme were provided for. During 2014–2015 one officer left under the same terms. The Welsh Language Commissioner does not foresee any further restructuring. Compared with the business case, all costs relating to the voluntary exit scheme will be recovered within just over 2 years.

#### Accommodation

An estate of offices was inherited which accommodated a much larger former organization compared to the present numbers. Following the restructure there followed a period of reorganising office space in order to provide suitable accommodation to match officer locations and to plan for future requirements.

A lease on the Cardiff office was surrendered early saving rental and service costs. Also the office was reorganised, due to a reduced need for space. There was a cost to this change, however by releasing 40% of the space and creating options to surrender or sub-let the costs of the Cardiff office could decrease in the future.

Bu newid i broffil daearyddol gweithlu'r sefydliad; y newid mwyaf trawiadol oedd cynnydd yn nifer y swyddogion yn swyddfeydd Caerfyrddin a Chaernarfon a lleihad nifer y swyddogion yng Nghaerdydd; ac oherwydd hyn roedd angen ad-drefnu'r swyddfeydd er mwyn creu gofod ac adnoddau addas.

#### Teithio a chynhaliadau

Bu lleihad o 19% yn y costau i'w gymharu â 2013–14 ac arbediad o 10% yn erbyn cyllideb 2014–15. Y prif resymau dros yr arbedion oedd lleihad yn nifer y swyddogion yn ystod y flwyddyn ac ail-ategu negeseuon i swyddogion i ddefnyddio dulliau teithio cost effeithiol. Rhagwelir cynnydd bychan yng nghostau 2015–16 wrth i nifer y swyddogion gynyddu i'r nifer yn y strwythur staffio.

#### Hyfforddiant a recriwtio

Prif resymau'r gostyngiad yn y gwariant rhwng 2013–14 a 2014–15 oedd arbediad ar gostau recriwtio, wrth ddefnyddio dulliau rhatach o recriwtio.

Gwelir cynnydd yn y gwariant yn erbyn cyllideb 2014–15. Yn dilyn yr ailstrwythuro, ac wrth symud i gyfundrefn reoleiddio adnabuwyd anghenion dysgu a datblygu penodol. Roedd angen ymateb i'r anghenion hyn drwy ddatblygu sgiliau a chymwyseddau swyddogion er mwyn eu galluogi i weithredu a chyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2015–16 yn sylweddol llai a bydd angen ystyried opsiynau cost effeithiol er mwyn cynnal anghenion dysgu a datblygiad swyddogion o fewn y gyllideb.

#### Cyfreithiol a phroffesiynol

Gwelwyd cynnydd yn y costau cyfreithiol o flwyddyn i flwyddyn. Roedd costau 2013–14 yn is oherwydd dyfarnwyd byddai'r Comisiynydd yn gallu adennill costau cyfreithiol yr adolygiad barnwrol yn erbyn Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Ac eithrio hyn gwelwyd lleihad yn y gwariant gwaelodol, sy'n esbonio'r amrywiaeth yn erbyn y gyllideb.

Bydd heriau sylweddol yn 2015–16 wrth i'r sefydliad weithredu'r gyfundrefn safonau. Wrth i nifer sylweddol o sefydliadau gael eu cynnwys yn yr ail a'r trydydd cylch o raglen ymchwiliadau safonau'r Comisiynydd, i'w gymharu â'r cylch cyntaf; bydd costau cyfieithu adroddiadau safonau yn cynyddu. Hefyd gallai sefydliad(au) herio penderfyniadau'r Comisiynydd yn y Tribiwnlys; ac anodd yw proffwydo costau cyfreithiol yn y maes yma heb brofiad o weithredu cydymffurfiaeth a gorfodi safonau.

#### Technoleg gwybodaeth

Prif reswm y cynnydd yng nghostau technoleg gwybodaeth oedd costau cefnogaeth allanol yn y cyfnod cyn i swyddog technoleg gwybodaeth gael ei benodi. Dylid nodi, arbedwyd costau cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

There has been a change to the geographical profile of the organization's workforce; the most significant change was an increase in the number of officers in Carmarthen and Caernarfon and a reduction in the number of officers in Cardiff; therefore there was a need to reorganise these offices in order to create suitable space and resources.

#### Travel and subsistence

There has been a reduction of 19% in costs compared to 2013–14 and a saving of 10% against the 2014–15 budget. The main reason for the savings was a reduction in the number of officers during the year and reinforcing the message to officers to use cost-effective modes of travel. A slight increase in the cost is anticipated for 2015–16 as the number of officers increases up to the number in the staffing structure.

#### Training and recruitment

The main reasons for the decrease in expenditure between 2013–14 and 2014–15 was a saving on the costs of recruiting, by using more cost effective recruitment methods.

There was an increase in expenditure against the 2014–15 budget. Following the restructuring and the transition to a regulatory regime specific learning and development needs were identified. There was a need to respond to these needs by developing the skills and competencies of officers in order to enable them to execute and fulfil their functions effectively.

The budget for 2015–16 is considerably less and it will be necessary to consider cost-effective options to support officers' learning and development requirements within the budget.

#### Legal and professional

There has been an increase in legal costs year on year. 2013–14 costs were lower because the Commissioner was able to recover the legal costs of the judicial review brought against National Savings & Investments. Excluding this, baseline expenditure decreased, which explains the variance against budget.

There will be significant challenges in 2015–16 as the organization implements the system of standards. As a significant number of organizations are included in the second and third rounds of the Commissioner's standards investigations schedule, compared to the first round the costs of translating the standards reports will increase. Also organization(s) could challenge the Commissioner's decision in the Tribunal; it is difficult to predict the legal costs in this area without the experience of implementing compliance and enforcement of the standards.

#### Information Technology

The main reason for the increased information technology costs was the cost of external support in the period before the information technology officer was appointed. It should be noted that employment costs were saved during this period.



Wedi sefydlu'r system rheoli gwybodaeth SGwNI yn 2013–14 gwelwyd lleihad a sefydlogi yng nghostau cynnal a chadw'r system. Hefyd roedd costau prosiectau technoleg gwybodaeth yn is yn ystod cyfnod yr ail-strwythuro wrth i ofynion penodol gael eu hail asesu.

#### Cyfathrebu

Yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2015 bu nifer o ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o weithgareddau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd. Yn benodol paratowyd hysbysebion am hawliau siaradwyr Cymraeg a'r drefn gwyno. Cyhoeddwyd hysbysebion ar yr ymchwiliadau safonau yn gwahodd unigolion a sefydliadau i gynnig tystiolaeth.

#### Rhaglenni

Mae'r rhaglenni yr ymgymerir â hwy yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r prif raglenni a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn nodyn 6 i'r cyfrifon. Yn gryno mae'r cyllid hwn yn talu am unrhyw ymholiad i anawsterau systemig yr ymgymerir ag ef gan y Comisiynydd, megis yr ymholiad gofal sylfaenol, gwaith ymchwil a pharatoi adroddiad 5 mlynedd y Comisiynydd, gwirio annibynnol e.e. profiadau gwasanaeth defnyddwyr y Gymraeg, a datblygu deunyddiau cyfathrebu am wasanaeth cwynion y Comisiynydd. Oherwydd toriad o £300,000 i'r gyllideb yn 2015–16, mae'r arian fydd ar gael ar gyfer rhaglenni yn llai na hanner y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2014–15. Bydd gwasgedd pellach yn y blynyddoedd dilynol wrth i ganran cynyddol o gyllideb y sefydliad gael ei wario ar gostau cyflogaeth.

#### **Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–16**

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno amcangyfrif i Weinidogion Cymru bob blwyddyn ariannol o incwm a gwariant y flwyddyn, a hynny o leiaf bum mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol. Cyflwynwyd amcangyfrif o £3.390 miliwn ar gyfer 2015–16 i Weinidogion Cymru ar 27 Hydref 2014. Paratowyd yr amcangyfrif hwn yn dilyn derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru ar 11 Medi 2014 yn hysbysebu bod toriad pellach i'r gyllideb o £300,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–16. Gosodwyd yr amcangyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Ionawr 2015 a dyrannwyd cyllideb o £3.390 miliwn ar gyfer 2015–16.

Er bod arbedion i gostau cyflogaeth, costau craidd a chostau rhaglenni wedi eu cynllunio; mae ffactorau tu hwnt i ddylanwad y rheolwyr yn rhoi pwysau ariannol ar y sefydliad. Byddai toriadau pellach i'r gyllideb yn peryglu gallu'r sefydliad i gyflawni ei swyddogaethau.

#### **Tâl yr Archwilwyr Allanol**

Datgelir taliadau'r archwilwyr yn nodyn 5 i'r cyfrifon. Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 (2013–14: £0).

#### **Cynllun cydraddoldeb**

Bu cyfnod ymgynghori ar Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Comisiynydd y Gymraeg o 14 Ebrill 2014 hyd 18 Gorffennaf 2014. Addaswyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwywyd y Cynllun fel y'i diwygiwyd gan y Tîm Rheoli.

Having set up the information management system SGwNI in 2013–14 a reduction and stabilisation of the maintenance costs was apparent. Also information technology project costs were lower during the period of restructuring whilst specific requirements were assessed.

#### Communication

During the year to 31 March 2015, there have been a number of public awareness campaigns relating to the activities, duties and functions of the Commissioner. In particular advertisements were prepared relating to the rights of Welsh speakers and the complaints procedure. Advertisements were published relating to the standards investigations inviting individuals and organizations to submit evidence.

#### Programme expenditure

The programmes undertaken vary from year to year. Further information about the main programmes completed during the year is set out in note 6 to the accounts. In summary this finances any enquiry undertaken by the Commissioner into systemic problems, such as the inquiry into primary care, research and preparation of the Commissioner's 5 year report, independent verification e.g. experiences of service users in the Welsh language, and development of communication materials relating to the Commissioner's complaints process. As a result of a £300,000 cut to the 2015–16 budget, the funds available for programmes is less than half the budget allocated for 2014–15. There will be further pressure in future years as an increasing percentage of the organization's budget is spent on employment costs.

#### **Estimate for the 2015–16 financial year**

It is a requirement for the Commissioner to submit an estimate to Welsh Ministers each financial year of income and expenditure for the year, at least five months in advance of the start of the financial year. An estimate of £3.390 million for 2015–16 was presented to Welsh Ministers on 27 October 2014. This estimate was prepared following the receipt of a letter from the Welsh Government on 11 September 2014 noting a further cut in the budget of £300,000 in respect of the financial year 2015–16. The estimate was laid before the Assembly on 19 January 2015 and a budget of £3.390 million was allocated for 2015–16.

Although savings on employment costs, core costs and programme costs have been planned; factors beyond the influence of management places financial pressure on the organization. Further cuts to the budget could jeopardize the organization's ability to undertake its functions.

#### **Remuneration of External Auditors**

The auditor's remuneration is disclosed in note 5 to the accounts. The external auditors did not undertake any non audit work during the year ended 31 March 2015 (2013–14: £0).

#### **Equality scheme**

There was a period of consultation on the Welsh Language Commissioner's Equality Objectives and Strategic Equality Plan from 14 April 2014 until 18 July 2014. The Strategic Equality Plan was modified to reflect the comments received and the Plan as amended was approved by the Management Team.

### Cydraddoldeb yn y gweithle

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu ar ba bynnag sail. Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn.

### Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig o'r PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen a'r Comisiynydd a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

### Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn eu cefnogi os ydynt yn teimlo'n isel neu o dan straen yn y gwaith. Darperir y gwasanaeth hwn gan gontractwr allanol.

### Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny.

Wrth i'r sefydliad weithredu cyfrifoldebau a dyletswyddau newydd bydd heriau sylweddol yn ei wynebu. Er mwyn datblygu sgiliau a chymwyseddau swyddogion i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu eu swyddogaethau fel rheoleiddwyr yn effeithiol, bydd angen ystyried opsiynau cost effeithiol wrth ymateb i'r her hon yng nghyd-destun llai o gyllideb.

### Equality in the workplace

The Welsh Language Commissioner totally opposes any discrimination on any basis. Using fair and objective employment practices, the Commissioner will ensure that officers are treated fairly and with respect in the workplace, and have an equal opportunity to contribute and achieve their full potential.

### Union recognition

The organization has a recognised union branch of the PCS and regular meetings are held between representatives of the branch and the Commissioner and the Senior Human Resources Officer.

### Well-being

The Commissioner provides a free confidential counselling service for officers in order to support them if they feel low or under strain at work. This service is provided by an external contractor.

### Learning and development

The Commissioner operates a Performance Management system that ensures officers understand what is expected of them and that they have the skills and ability to achieve this. Discussion of training and development needs is a key part of the system and a development plan is drawn up for each officer on the basis of those discussions.

As the organization undertakes new responsibilities and duties, it will face significant challenges. In order to develop officers' skills and competencies to ensure that they are able to execute the regulatory functions effectively, cost-effective options will need to be considered when responding to this challenge in the context of a reduced budget.

### Materion amgylcheddol

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Mae gan y sefydliad bolisi cynaliadwyedd amgylcheddol a chynllun gweithredu blynyddol. Nod y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yw gosod amcanion er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Ceisia'r Comisiynydd leihau effaith y sefydliad ar yr amgylchedd drwy hyrwyddo defnyddio technoleg megis fideo-gynadledda er mwyn osgoi teithiau busnes; annog defnydd trafniadaeth gyhoeddus a rhannu ceir; annog swyddogion i geisio defnyddio llai o ynni a gweithredu trefniadau ailgylchu gwastraff yn ei swyddfeydd.

	2014–15	2013–14
<b>Allyriant nwyon tŷ gwydr</b>		
Cyfanswm yr allyriad kg CO <sub>2</sub>	92,519	90,338
Y gellir eu priodoli i deithiau busnes kg CO <sub>2</sub>	34,795	32,817
Teithiau mewn car kg CO <sub>2</sub>	22,508	19,768
Teithiau ar y rheilffordd neu hedfan kg CO <sub>2</sub>	12,287	13,049
Y gellir eu priodoli i ddefnydd o ynni kg CO <sub>2</sub>	57,724	57,521
Trydan kg CO <sub>2</sub>	54,011	53,239
Nwy kg CO <sub>2</sub>	3,713	4,282
Cyfanswm gwariant ar ynni £	16,181	15,799
Gwariant ar drydan £	14,865	14,741
Gwariant ar nwy £	1,316	1,058
<b>Defnydd o bapur mewn rimiau</b>	432	464

Mae gwariant ar ynni ac allyriant o ddefnydd ynni ar gyfer 2013–14 wedi ei ailddatgan yn dilyn datrys anghydfod gyda thrydydd parti ynglŷn â chostau a darparu gwybodaeth.

Mae targedau gwastraff 'Greening Government' sydd wedi eu nodi ym mharagraff 4.18 ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.17 o'r cyhoeddiad 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: cyfarwyddiadau adroddiadau cynaliadwyedd 2014–15' yn parhau yn amherthnasol i sefydliadau cyhoeddus Cymru.

### Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd 17 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2013–14: 11 cais). Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, wedi eu cyhoeddi ar y wefan.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn ystod y flwyddyn.

### Cwynion yn erbyn y sefydliad

Yn unol ag Adran 14 y Mesur, mae gweithdrefn gwyno benodol ar gael os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Ceir copi o'r weithdrefn hon ar wefan y Comisiynydd.

Derbyniwyd 1 gŵyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2014–15, yn dilyn ymchwilio dyfarnwyd nad oedd sail i'r gŵyn (2013–14: 5 cwyn).

### Environmental matters

The Commissioner is committed to good environmental practices. The organization has an environmental sustainability policy and an annual action plan. The aim of the Sustainability Action Plan is to set objectives to reduce the impact on the environment. The Commissioner seeks to reduce the organizations impact on the environment by promoting the use of technology such as video-conferencing to avoid business journeys; encourages the use of public transport and sharing of cars; encourage staff to attempt to use less energy and operates waste recycling arrangements in its offices.

	2014–15	2013–14
<b>Greenhouse gas emissions</b>		
Total emissions kg CO <sub>2</sub>	92,519	90,338
Attributable to business travel kg CO <sub>2</sub>	34,795	32,817
Journeys by car kg CO <sub>2</sub>	22,508	19,768
Journeys by rail or air kg CO <sub>2</sub>	12,287	13,049
Attributable to energy consumption kg CO <sub>2</sub>	57,724	57,521
Electricity kg CO <sub>2</sub>	54,011	53,239
Gas kg CO <sub>2</sub>	3,713	4,282
Total expenditure on energy £	16,181	15,799
Expenditure on electricity £	14,865	14,741
Expenditure on gas £	1,316	1,058
<b>Paper consumption in reams</b>	432	464

Expenditure on energy and emissions attributable to energy consumption for 2013–14 have been restated following resolution of disputed charges and supply of information from a third party.

The Greening Government waste targets set out in paragraph 4.18 and referred to in paragraph 5.17 of the publication "Public Sector Annual Reports: sustainability reporting guidance 2014–15" continue not to be applicable to Welsh public bodies.

### Freedom of information

17 requests for information were received under the Freedom of Information Act 2000 during the year (2013–14: 11 requests). The Commissioner's responses to requests, as well as any information released, are published on the website.

No subject access request for information was received under the Data Protection Act 1998 during the year.

### Complaints against the organization

In accordance with Section 14 of the Measure, a specific complaints procedure is available if an individual wishes to complain about acts or omissions involving the exercise of the Commissioner's functions. A copy of this procedure can be found on the Commissioner's website.

1 complaint against the organization was received during 2014–15, following investigation it was determined that there was no ground for the complaint (2013–14: 5 complaints).

## Cynlluniau ar gyfer 2015–17

Ar 1 Ebrill 2015 cyhoeddwyd Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2015–17. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Gynllun Strategol 2013–15, ac mae'n cynnwys pump o amcanion. Mae blaenoriaethau penodol i bob amcan:

### Amcan strategol 1:

#### Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

- i. Dylanwadu a chraffu ar bolisi a deddfwriaeth
- ii. Cynnal ymholiad ar sail tystiolaeth i faes sydd o flaenoriaeth
- iii. Paratoi adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg
- iv. Cynyddu a gwella'r ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg drwy gynnal ymchwil a chydweithio ag eraill

### Amcan strategol 2:

#### Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg

- v. Gwella dealltwriaeth ynglŷn â hawliau defnyddwyr y Gymraeg
- vi. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a hawliau ieithyddol drwy gychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol
- vii. Sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu fel y dylent drwy orfodi dyletswyddau a chosbi methiannau yn unol â phwerau cyfreithiol y Comisiynydd
- viii. Ymchwilio i amheuan o fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau

### Amcan strategol 3:

#### Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio

- ix. Gosod dyletswyddau statudol ar gyrff drwy'r gyfundrefn safonau
- x. Gwneud gofynion statudol yn glir i'r rhai sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio
- xi. Gweithredu rhaglen reoleiddio ragataliol er mwyn mesur perfformiad sefydliadau yn erbyn dyletswyddau iaith
- xii. Rhoi barn annibynnol ar berfformiad sefydliadau ac adrodd ar brofiadau iaith defnyddwyr y Gymraeg

### Amcan strategol 4:

#### Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol

- xiii. Adnabod cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg
- xiv. Datblygu a lledaenu canllawiau ac arferion da ar y defnydd o'r Gymraeg
- xv. Datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau strategol
- xvi. Cydgyssylltu datblygiadau isadeiledd y Gymraeg

### Amcan strategol 5:

#### Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol

- xvii. Cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- xviii. Rheoli cyllid, adnoddau ac isadeiledd y sefydliad gan sicrhau gwerth am arian
- xix. Gweithredu swyddogaethau llywodraethu priodol
- xx. Datblygu a chynnal y gweithlu

Mae cynllun gweithredol manwl wedi ei lunio ar sail y blaenoriaethau hyn.

## Plans for 2015–17

The Welsh Language Commissioner's Strategic Plan 2015–17 was published on 1 April 2015. This Strategic Plan builds on the foundations of the 2013–15 Strategic Plan, and includes five objectives. There are specific priorities to each objective:

### Strategic objective 1:

#### Influencing the consideration given to the Welsh language in policy developments

- i. Influencing and scrutinizing policy and legislation
- ii. Conducting an evidence-based inquiry into a priority area
- iii. Preparing a 5 year report on the position of the Welsh language
- iv. Increasing and improving the understanding of the position of the Welsh language by researching and working with others

### Strategic objective 2:

#### Ensuring justice for Welsh language users

- v. Increasing understanding of the rights of Welsh language users
- vi. Promoting the use of the Welsh language and linguistic rights by instituting or intervening in legal proceedings
- vii. Ensuring that organizations operate as they should by enforcing duties and penalising failures in accordance with the Commissioner's legal powers
- viii. Investigating suspected failures to comply with language duties

### Strategic objective 3:

#### Imposing statutory duties and regulating them

- ix. Imposing statutory duties on organizations through the standards process
- x. Ensuring that statutory requirements are clear for those who have a duty to comply
- xi. Implementing a pre-emptive regulatory programme in order to measure the performance of organizations against language duties
- xii. Giving an independent opinion on the performance of organizations and reporting on the language experiences of Welsh language users

### Strategic objective 4:

#### Encouraging, promoting and facilitating the use of the Welsh language on a voluntary basis

- xiii. Identifying opportunities to increase the use of the Welsh language
- xiv. Developing and sharing guidance and good practice on the use of the Welsh language
- xv. Developing strategic contacts and networks
- xvi. Coordinating developments in Welsh language infrastructure

### Strategic objective 5:

#### Operating and communicating appropriately and effectively

- xvii. Communicating effectively internally and externally
- xviii. Managing the organization's finances, resources and infrastructure thus ensuring value for money
- xix. Implementing appropriate governance functions
- xx. Developing and maintaining the workforce

A detailed operational plan has been prepared on the basis of these priorities.

---

## Cyd-destun y Gymraeg 2014–15

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol ag adran 18 (2) (b) Mesur y Gymraeg, ddarparu adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg. Yn yr adran hon rhoddir sylw i ddatblygiadau cenedlaethol a ddigwyddodd neu adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2014–15.

---

### Y cyd-destun cyfreithiol

#### Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg

Ar 14 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau drafft a fyddai'n pennu safonau ar gyfer Cylch 1. Ymgynghorwyd ar y rheoliadau drafft am bedair wythnos hyd at 5 Rhagfyr 2014. Cyhoeddwyd y rheoliadau drafft ar ôl yr ymgynghori ar 3 Mawrth 2015 a chawsant eu pasio gan y Cynulliad ar 24 Mawrth 2015.

#### Tribiwnlys y Gymraeg

Bydd y Tribiwnlys yn gwrandao ar achosion sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Comisiynydd mewn perthynas â safonau'r Gymraeg.

Ar 17 Gorffennaf 2014 cyhoeddwyd mai Keith Bush CF fydd Llywydd cyntaf Tribiwnlys y Gymraeg. Yr aelodau fydd yn cefnogi gwaith y Tribiwnlys a'i Lywydd, fydd Nicola Jones sy'n aelod sy'n gymwys yn gyfreithiol, a'r aelodau llewyg Sara Anne Peacock, Sara Gwennan Williams ac Isata Margaret Kanneh. Ymgynghorwyd ar reolau'r Tribiwnlys 24 Tachwedd 2014 a 19 Ionawr 2015.

#### Setliad datganoli i Gymru ac ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg

Yn y papur polisi 'Pwerau at Bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 27 Chwefror 2015, nododd y Llywodraeth y bydd yn ceisio sicrhau bod modd i ddinasyddion yng Nghymru allu cofrestru digwyddiadau pwysig bywyd yn y Gymraeg yn y dyfodol. Noda'r adroddiad hefyd bod yna gonsensws o blaid derbyn yr argymhelliad 39 y Comisiwn Silk:

“Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig ac adolygu sut y defnyddir y Gymraeg ym mhob rhan o'r llywodraeth, ac yn benodol yng nghyswllt diwygio unrhyw ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.”

---

### Y cyd-destun polisi

#### Cyfrifoldeb gweinidogol

Y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, sy'n dal portffolio'r iaith Gymraeg ar Gabinet Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2014 penodwyd Stephen Crabb AS yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, ac Alun Cairns AS yn Weinidog yn Swyddfa Cymru i fod yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg ymysg pethau eraill.

---

## The context of the Welsh language 2014–15

The Welsh Language Commissioner, in accordance with section 18 (2) (b) of the Welsh Language Measure, is required to provide a review of matters relevant to the Welsh language. In this section attention is given to national developments that took place or reports that were published during 2014–15.

---

### The legal context

#### Standards in respect of the Welsh Language

On 14 November 2014 the Welsh Government published draft regulations to specify standards for Round 1. A four-week consultation was held on the draft regulations, until 5 December 2014. The draft regulations were published following the consultation on 3 March 2015 and they were passed by the Assembly on 24 March 2015.

#### Welsh Language Tribunal

The Tribunal will hear cases involving the Commissioner's decisions in respect of Welsh language standards.

On 17 July 2014 it was announced that Keith Bush QC would be the first President of the Welsh Language Tribunal. The members supporting the work of the Tribunal and its President are Nicola Jones who is a legally qualified member, and the lay members are Sara Anne Peacock, Sara Gwennan Williams and Isata Margaret Kanneh. Consultation took place on the Tribunal's rules between 24 November 2014 and 19 January 2015.

#### Devolution settlement for Wales and Welsh language considerations

In the policy paper 'Powers for a Purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales', published by the UK Government on 27 February 2015, the Government noted that it will try to ensure that citizens in Wales can register life's important events in Welsh in the future. The report also notes that there is consensus in favour of accepting the Silk Commission's recommendation 39:

“The UK Government and Welsh Government should systematically assess and keep under review the way in which the Welsh language is used across government, in particular with a view to amending any United Kingdom legislation that does not give equal status to the Welsh language in Wales.”

---

### The policy context

#### Ministerial responsibility

The First Minister, Carwyn Jones AM, holds the Welsh language portfolio on the Welsh Government Cabinet. During 2014, Stephen Crabb MP was appointed Secretary of State for Wales, with Alun Cairns MP as Minister in the Wales Office to be responsible for the Welsh language among other things.

**Iaith fyw: iaith byw — bwrw mlaen**

Ar 6 Awst 2014 cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad polisi yn adeiladu ar ei strategaeth, iaith fyw: iaith byw, ac yn gosod ei amcanion polisi o ran y Gymraeg hyd 2017.

Wrth gyflwyno'r datganiad polisi, eglurodd y Llywodraeth mai ei nod yw:

- gwneud y Gymraeg yn elfen normal o fywyd bob dydd;
- herio'r Llywodraeth ei hun, yn ogystal â'r sector cyhoeddus yn ehangach, busnesau, y trydydd sector ac unigolion i hyrwyddo'r Gymraeg;
- newid arferion ieithyddol, a defnyddio technegau newid ymddygiad o feysydd eraill;
- annog sefydliadau i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y Gymraeg, cynllunio'n well ac yn fwy strategol, gan fuddsoddi yn y Gymraeg;
- cynyddu buddsoddiad yn y cyrff sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned;
- cydnabod bod datblygu'r Gymraeg yn mynd law yn llaw â datblygu economaidd, a buddsoddi mewn rhaglenni penodol i gefnogi hynny;
- sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygiadau ym maes technoleg.

Ar 31 Mawrth 2015 cyhoeddodd y Llywodraeth drydydd cynllun gweithredu blynyddol y strategaeth sy'n esbonio sut byddwn yn gweithredu'r cynigion.

**Defnyddio'r Gymraeg****Y darlun ystadegol**

Cyhoeddwyd canfyddiadau blwyddyn gyntaf yr arolwg defnydd iaith ar 29 Ionawr 2015. Comisiynwyd yr arolwg ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r arolwg yn dangos bod ychydig yn llai o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl heddiw nag oedd yn 2004–06; ond bod cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd. Mae'n dangos hefyd bod cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dweud bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg.

**Defnydd gwasanaethau Cymraeg**

Cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr gan Cyngor ar Bopeth ar waith ymchwil a gynhaliwyd i geisio deall y defnydd a'r diffyg defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg. Gan ystyried tystiolaeth gynradd a gasglwyd yn ogystal â thystiolaeth oedd eisoes wedi ei gyhoeddi, canfu'r ymchwil bod llawer yn fwy o siaradwyr Cymraeg yn dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg nac sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd. Yn ôl yr adroddiad, mae hynny'n rhannol oherwydd argaeledd a safon gwasanaethau Cymraeg ond dylanwadir ar ymddygiad defnyddwyr hefyd gan ffactorau megis ymwybyddiaeth, arferion a hyder. Ymysg argymhellion yr adroddiad mae'r angen i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg wrth gynllunio gwasanaethau Cymraeg, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn bodloni gofynion defnyddwyr, a hefyd yr angen i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn fwy rhagweithiol.

**A living language: a language for living — moving forward**

On 6 August 2014 the Government published a policy statement building on its strategy A living language: a language for living, and setting out its policy objectives for the Welsh language until 2017.

Introducing the policy statement, the Government explained that its aim was to:

- make the Welsh language a normal element of everyday life;
- challenge the Government itself, as well as the wider public sector, businesses, the third sector and individuals to promote the Welsh language;
- change language practices, and use behavioural change techniques from other areas;
- encourage organizations to take more responsibility for the Welsh language, to plan better and more strategically, investing in the Welsh language;
- increase investment in the bodies that promote use of the Welsh language in the community;
- acknowledge that developing the Welsh language goes hand in hand with economic development, and investment in specific programmes to support that;
- ensure that the Welsh language is an integral part of development in the area of technology.

On 31 March 2015 the Government announced the strategy's third annual action plan which explains how it will implement the proposals.

**Use of the Welsh Language****The statistical picture**

The first year findings of the language use survey were published on 29 January 2015. The survey was commissioned jointly between the Welsh Government and the Welsh Language Commissioner.

The survey indicates that slightly fewer people can speak Welsh fluently today than in 2004–06; but that there has been an increase in the number of fluent Welsh speakers using the language every day. It also indicates that there has been an increase in the Welsh speakers stating that their employer supports the use of Welsh.

**Use of Welsh language services**

A comprehensive report was published by Citizens' Advice on research carried out to try to understand the use and lack of use made of Welsh language services. Considering evidence collected as well as evidence already published, the research found that many more Welsh speakers wish to use Welsh language services than actually do so. According to the report, this is in part due to the availability and standard of Welsh language services but the behaviour of users is also influenced by factors such as awareness, practices and confidence. Among the recommendations of the report is the need to liaise with Welsh speakers when planning Welsh language services, in order to ensure that Welsh services meet the requirements of users, and also the need to offer Welsh language services more proactively.

## Dysgu Cymraeg

### Addysg Gymraeg

Yn ystod 2014–15 cyhoeddwyd nifer o adolygiadau o wahanol agweddau ar y gyfundrefn addysg, gyda nifer o'r rheini yn cynnwys adolygiad o elfennau o addysg cyfrwng Cymraeg. Ers 2012 bu cwmni Arad yn cynnal adolygiad o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth ac yn ystod 2014–15 cyhoeddwyd tri adroddiad ar raglenni penodol sy'n rhan o'r strategaeth honno.

Ym mis Mai 2014 cyhoeddwyd adroddiad Grŵp Annibynnol dan gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies ar adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddodd Estyn adolygiad thematig ar 'Ddilysiant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog'.

Yn ogystal cyhoeddwyd adolygiadau ehangach ar rannau penodol o'r gyfundrefn addysg yng Nghymru sy'n rhoi sylw i'r Gymraeg. Cyhoeddwyd adroddiad ar adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm dysgu a threfniadau asesu; adroddiad ar adolygiad yr Athro Furlong ar ddyfodol hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, ac mae'r Athro Diamond wrthi'n adolygu trefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru.

Gyda chymaint o dystiolaeth wedi ei gyhoeddi ac ar fin cael ei gyhoeddi, tybir y bydd y blynyddoedd nesaf yn gyfnod o gynllunio a gweithredu newidiadau a gwelliannau sylweddol i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru.

### Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli cyhoeddodd y Prif Weinidog Gronfa Buddsoddi Cyfalaf i ddatblygu Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Ar 3 Rhagfyr 2014 cyhoeddodd mai'r prosiectau fydd yn cael cymorth yn ystod cylch ariannol 2014–15 fyddai Cyngor Ynys Môn i ddatblygu canolfannau'r sir ar gyfer trochi hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg, Prifysgol y Drindod Dewi Sant i brynu adeilad yng nghanol tref Caerfyrddin a'i droi'n ganolfan iaith amlbwrpas, Cyngor Sir Gaerfyrddin i weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu canolfan iaith amlbwrpas yn Llanelli, a Choleg Cambria i ddatblygu canolfan ar gyfer dysgu sgiliau Cymraeg sy'n berthnasol i'r gweithle yng nghanol tref Wrexham.

## Learning Welsh

### Welsh Education

During 2014–15 a number of reviews involving various aspects of the education system were published, with a number of them including reviewing elements of Welsh medium education. Since 2012 Arad has been conducting a review of the Government's Welsh Medium Education Strategy and during 2014–15 three reports were published on specific programmes which are part of that strategy.

An Independent Group chaired by Professor Sioned Davies published its report in May 2014, reviewing second-language Welsh in Key Stages 3 and 4. In November 2014, Estyn published a thematic review on 'Linguistic progression and Welsh language standards in ten bilingual schools'.

Also, wider reviews were published on specific areas of the education system in Wales giving attention to the Welsh language. A report was published on Professor Donaldson's review of the learning curriculum and assessment arrangements; a report on Professor Furlong's review of the future of teacher's training and initial education in Wales, and Professor Diamond is in the process of reviewing the arrangements for funding higher education and student finance in Wales.

With so much evidence having been published and about to be published, it is thought that the coming years will be a period of planning and implementing substantial changes and improvements to the education system in Wales.

### Welsh Language Learning Centres and Spaces

At the National Eisteddfod in Llanelli, the First Minister announced a Capital Investment Fund to develop Welsh Language Learning Centres and Spaces in order to promote use of the Welsh language.

On 3 December 2014, it was announced that the projects that would be supported during the 2014–15 funding cycle would be the Isle of Anglesey County Council to develop the county's centres for immersing latecomers in the Welsh language, Trinity St David University to buy a building in the centre of Carmarthen and convert it into a multi-purpose language centre, Carmarthenshire County Council to work with partners in the third sector to develop a multi-purpose language centre in Llanelli and Coleg Cambria to develop a centre for learning Welsh language skills that are relevant to the workplace in the centre of Wrexham.

---

# Atebolrwydd

---

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	94
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff	106
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	118
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	120

---

---

# Accountability

---

Annual Governance Statement	95
Remuneration and Staff Report	107
Statement of the Accounting Officer's Responsibilities	119
Certificate and Report of the Auditor General for Wales to the National Assembly for Wales	121

---



---

## Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2014–15

---

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i weithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

### Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Mae Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg i'w gael ar y wefan gorfforaethol.

---

## Annual Governance Statement 2014–15

---

### Scope of responsibility

As the Accounting Officer I am personally responsible for the overall organization, management and staffing of the Welsh Language Commissioner. I must ensure that the organization has a high standard of financial management and that its financial systems and procedures promote the efficient and economical conduct of business and safeguard financial propriety and regularity.

### The purpose of the governance framework

The governance framework is designed to preserve my independence as Welsh Language Commissioner and to balance that independence with my accountability for the public money I spend.

As Accounting Officer I am accountable to the National Assembly for Wales, the Welsh Ministers or the Public Accounts Committee of the National Assembly for Wales or the House of Commons or the Public Accounts Committee of the House of Commons.

The Welsh Language Commissioner is defined by statute as a corporation sole whose powers and responsibilities are set out in Part 2 of the Welsh Language Measure.

The governance framework comprises the systems, processes, culture and values by which the Welsh Language Commissioner is directed and through which it is accountable for its activities.

The system of internal control is a significant part of the governance framework and is designed to manage risk to a reasonable level.

The Welsh Language Commissioner's permanent Governance Statement is on the corporate website.

## Llywodraethiant y sefydliad

### Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad

Daeth Cynllun Strategol cyntaf y Comisiynydd i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014–15. Lluniwyd Cynllun Gweithredol manwl ar gyfer pob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2014–15 gyda chyfraniad uwch swyddogion y Comisiynydd drwy drafodaethau mewnol.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddiaethau penodol yw gweithredu'r camau sydd wedi'u nodi, ac yna bydd y Tîm Rheoli'n adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r canlyniadau. Yn dilyn yr ailstrwythuro, addaswyd y Cynllun Gweithredol i adlewyrchu'r newid mewn cyfrifoldebau a sefydlwyd trefn o adrodd ar y cynnydd yn chwarterol. Cyflawnwyd gweithgareddau allweddol 2014–15 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

### Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi Dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Gwenith Price, Cyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi yw Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg. Cadarnhawyd y penodiad yma am gyfnod pellach hyd at fis Medi 2015.

### Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Rhagfyr 2014. Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Cyfarfu'r Tîm Rheoli yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, a hynny gan amlaf yn bythefnosol ac mae'n gyfrifol am arwain a rheoli gweithgarwch ar draws y sefydliad. Yn y pen draw, dyma'r prif fforwm (wedi ei gefnogi'n briodol gan grwpiau eraill) ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllunio strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad. Bydd cyfarfod cyntaf bob mis yn gyfarfod strategol a'r ail yn canolbwyntio ar adolygu a monitro.

Roedd aelodaeth y Tîm Rheoli, yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

<b>Meri Huws</b>	Comisiynydd y Gymraeg
<b>Gwenith Price</b>	Cyfarwyddwr Cydymffurfiaeth a Gorfodi a Dirprwy Gomisiynydd
<b>Enid Lewis</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (hyd 31 Mai 2014)
<b>Gwyn Williams</b>	Cyfarwyddwr Hybu, Cyfathrebu a Gweinyddu
<b>Dyfan Siôn</b>	Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil (o 17 Mehefin 2014)

## Governance of the organization

### Strategic planning and performance review

The Commissioner's first Strategic Plan came to an end at the end of the financial year 2014–15. A detailed Operating Plan was drawn up for each year. The 2014–15 Operating Plan was developed through contributions from the Commissioner's senior officers during internal discussions.

The responsibilities of the specific Directorates is to implement the actions that have been specified, the Management Team then reviews progress against targets and outcomes. Following the restructuring, the Operating Plan was amended to reflect the change in responsibilities and a system of quarterly progress reporting was established. Key activities for 2014–15 were completed by the end of the financial year.

### Deputy Commissioner

In accordance with sections 12 and 13 of the Measure, the Welsh Language Commissioner is required to appoint a Deputy Commissioner. The Deputy Commissioner will deputise for the Welsh Language Commissioner during periods of holiday, illness and any other occasion at the request of the Welsh Language Commissioner. The Deputy Commissioner is Gwenith Price, Director of Compliance and Enforcement. This appointment was confirmed for a further period until September 2015.

### Management Team

The Management Team, chaired by the Commissioner, and comprising all Directors, exercises management of the Commissioner's functions and activities. The Management Team is responsible for leading, agreeing and delivering the Commissioner's strategic vision, policies and services to the public and other stakeholders. The Management Team's terms of reference were reviewed during December 2014. The Management Team's terms of reference is published on the Commissioner's website.

The Management Team meet regularly during the year, mostly on a fortnightly basis and is responsible for leadership and management across the organization. It is the ultimate forum (supported appropriately by other groups) for making executive decisions about operational, resource, communications and other administrative matters in order to implement the strategic and all other business planning processes, and for monitoring performance. The first meeting each month will be a strategic meeting and the second focusing on reviewing and monitoring.

Management Team membership during the year was as follows:

<b>Meri Huws</b>	Welsh Language Commissioner
<b>Gwenith Price</b>	Director of Compliance and Enforcement and Deputy Commissioner
<b>Enid Lewis</b>	Corporate Services Director (until 31 May 2014)
<b>Gwyn Williams</b>	Director of Promotion, Communication and Administration
<b>Dyfan Siôn</b>	Director of Policy and Research (from 17 June 2014)

**Archwilwyr**

Yn dilyn proses dendro gystadleuol lawn, penodwyd ktsowenstomas yn archwilwyr mewnol o 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd. Paratowyd cynllun archwilio mewnol gan yr archwilwyr mewnol ym mis Mai 2014 ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2014.

Yn ystod y flwyddyn, archwiliwyd, gwerthuswyd ac adroddwyd ar y meysydd canlynol:

- Rheoli Ad-drefnu a Newid
- Parodwydd am Bwerau Statudol newydd
- Rheolaeth gyllidebol a phrosesau ariannol
- Prosesau caffael a gwariant
- Cofnodion a phrosesu'r gyflogres, a treuliau swyddogion

Yn unol ag Atodlen 1 Rhan 5 o'r Mesur, Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon y Comisiynydd.

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei adolygu ym mis Rhagfyr 2014. Ceir copi o gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar wefan y Comisiynydd.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg tair gwaith yn ystod y flwyddyn 2014–15. Mae'r penderfyniad i gynnal cyfarfodydd tair gwaith y flwyddyn yn hytrach na phedair gwaith yn cael ei adolygu yn barhaus

Penodwyd tri aelod annibynnol ym mis Tachwedd 2012, am gyfnod o 3 blynedd yn y lle cyntaf. Yn dilyn ymddiswyddiad un o'r aelodau, aethpwyd ati i benodi aelodau newydd. Penodwyd Nigel Annett ar 2 Mawrth 2015 a roedd penodiad Dr Ian Rees yn effeithiol o 1 Ebrill 2015.

Mae trefn mewn lle sydd yn caniatáu i aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	24 Mehefin 2014	4 Rhagfyr 2014	18 Mawrth 2015
Wyn Jones (Cadeirydd)	✓	✓	✓
Rheon Tomos	✓	✓	✓
Nigel Annett	—	—	✓

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn nifer o eitemau agenda sefydlog ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad cyllid misol a'r adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli, fel rhan o'i gylch gwaith.

**Auditors**

Following a full competitive tender process ktsowenstomas were appointed as internal auditors from 1 April 2014 for a period of 3 years. An internal audit plan was prepared by the internal auditors during May 2014, which was approved by the Commissioner and the Audit and Risk Committee in June 2014.

During the year, the following areas were audited, evaluated and reported upon:

- Managing Restructuring and Change
- Readiness for Statutory Powers
- Budgetary control and financial processes
- Procurement and expenditure processes
- Payroll and officers' expenses recording and processing

In accordance with Schedule 1 Part 5 of the Measure, the Auditor General for Wales is responsible for auditing the Commissioner's accounts.

**Audit and Risk Committee**

The Audit and Risk Committee is responsible for providing advice and independent assurance to the Accounting Officer and the Management Team on the adequacy and effectiveness of internal control and risk management. The Audit and Risk Committee's terms of reference was reviewed in December 2014. A copy of the Audit and Risk Committee's terms of reference can be found on the Commissioner's website.

The Audit and Risk Committee met three times during the financial year 2014–15. The decision to hold three meetings a year, as opposed to four meetings is under constant review.

Three independent members were appointed in November 2012, for a period of 3 years in the first instance. Following the resignation of one member, new members were appointed. Nigel Annett was appointed on 2 March 2015 and Dr Ian Rees' appointment was effective from 1 April 2015.

A procedure is in place to allow members to retire at different times to ensure continuity of experience and knowledge.

The members of the Audit and Risk Committee and their attendance was as follows:

	24 June 2014	4 December 2014	18 March 2015
Wyn Jones (Chair)	✓	✓	✓
Rheon Tomos	✓	✓	✓
Nigel Annett	—	—	✓

The Audit and Risk Committee receives a number of standard agenda items for each meeting. The committee receive the monthly finance report and the Operational Plan progress report, which has been approved by the Management Team as part of its remit.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli a'r Rheolwr Risg yn mynychu pob Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod. Mae croeso hefyd i ddau swyddog arsylwi ar y cyfarfodydd.

Ar ddiwedd pob cyfarfod caiff pawb sy'n mynychu gyfle i gynnig barn ar unrhyw agwedd ar y cyfarfod. Am y tro cyntaf yn 2013–14 cynhaliwyd adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i gydymffurfio â'i gylch gorchwyl. Cytunwyd i ailadrodd yr ymarferiad ym mis Rhagfyr 2015.

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiad blynyddol ar gyfer 2014–15 i'r Comisiynydd. Nid oes unrhyw faterion o bryder wedi'u dwyn at sylw'r Comisiynydd yn yr adroddiad hwn. Felly, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg i gydymffurfio â'i dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn benodol yng nghyswllt rhoi tystiolaeth a fyddai'n helpu â'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn.

#### Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Banel Cynghori. Penodwyd y Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru ar 17 Ebrill 2012 am gyfnod o 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2015. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Ceir copi o gylch gwaith y Panel Cynghori ar wefan y Comisiynydd.

Ar 1 Medi 2014 penodwyd dau aelod newydd i'r Panel, sef Bethan Jones Parry a'r Gwir Barchedig. Carl Cooper. Ym mis Ebrill 2015 penododd y Prif Weinidog aelodau newydd i'r Panel, sef Nick Speed, Meinir Davies a Dr Heledd Iago. Daeth cyfnod Dr Ian Rees, Gareth Jones a'r Athro Gwynedd Parry i ben ar 31 Mawrth 2015. Derbyniodd Bethan Jones Parry wahoddiad y Prif Weinidog i gadeirio'r Panel.

Roedd aelodaeth y Panel Cynghori, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	11 Mehefin 2014	26 Medi 2014	10 Rhagfyr 2014	13 Mawrth 2015
Dr Ian Rees (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Gareth Jones	✓	✓	✓	✗
Yr Athro Gwynedd Parry	✓	✓	✓	✓
Y Gwir Barch. Carl Cooper	—	✗	✓	✓
Bethan Jones Parry	—	✓	✓	✓

The Management Team and the Risk Manager attend all Audit and Risk Committees. Representatives of the internal and external auditors were present at each meeting. An opportunity is also made available for two officers to observe the meetings.

At the end of each meeting the attendees are able to give an opinion on any aspect of the meeting. For the first time during 2013–14 an annual review was undertaken in order to ensure that the work of the Audit and Risk Committee continues to comply with its terms of reference. It was agreed to repeat this exercise in December 2015.

The Audit and Risk Committee presented an annual report for 2014–15 to the Commissioner. No matters of concern have been brought to the Commissioner's attention in this report. Therefore the Audit and Risk Committee was able to give assurance that it would assist the Welsh Language Commissioner to comply with her duties as Accounting Officer, specifically in the context of giving evidence that would assist with the preparation of this Annual Governance Statement.

#### Welsh Language Commissioner's Advisory Panel

As required by the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Commissioner has an Advisory Panel. The Advisory Panel was appointed by Welsh Ministers on 17 April 2012 for a period of 3 years until 31 March 2015. The Commissioner can consult with the Advisory Panel on any matter. A copy of the terms of reference of the Advisory Panel can be found on the Commissioner's website.

On 1 September 2014 two new members were appointed to the Panel, Bethan Jones Parry and the Right Reverend Carl Cooper. In April 2015 the First Minister appointed new members to the Panel; Nick Speed, Meinir Davies and Dr Heledd Iago. The tenure of Dr Ian Rees, Gareth Jones and Professor Gwynedd Parry ended on 31 March 2015. Bethan Jones Parry accepted the First Minister's invitation to chair the Panel.

The members of the Advisory Panel and their attendance was as follows:

	11 June 2014	26 September 2014	10 December 2014	13 March 2015
Dr Ian Rees (Chair)	✓	✓	✓	✓
Gareth Jones	✓	✓	✓	✗
Prof. Gwynedd Parry	✓	✓	✓	✓
Rt Rev. Carl Cooper	—	✗	✓	✓
Bethan Jones Parry	—	✓	✓	✓

**Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol (adran 17–20, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)**

Diddymwyd y Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol yn ystod 2014–15 a throsglwyddwyd gyfrifoldebau'r Panel i'r Tîm Rheoli.

Adolygwyd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli i adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- gwneud argymhellion statudol yn ymwneud â chwynion, ymchwiliadau ac adroddiadau ymchwiliadau adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- rhesymu a dyfarnu ar adroddiadau ymchwiliad sy'n cwmpasu honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg;
- ystyried unrhyw gŵyn neu achos gaiff ei gyfeirio at sylw'r Tîm Rheoli gan y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod 2014–15 agorwyd 5 ymchwiliad statudol dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan y Comisiynydd i'r isod:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Sir Ddinbych
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cwblhawyd 2 ymchwiliad i'r sefydliadau isod dan Adran 115 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ystod y flwyddyn:

- Swinton Group Ltd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae manylion pellach am yr ymchwiliadau o dan Amcan Strategol 2.

**Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmyr a Chomisiynwyr**

Mae Adran 20 a 21 y Mesur yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog ag ombwdsmyr a chomisiynwyr. Yn y Mesur fe enwir y sefydliadau canlynol fel rhai i'r Comisiynydd weithio'n gyfochrog â hwy: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cytunwyd ar Femorandwm Cydweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn ystod 2014–15.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol a thechnoleg gwybodaeth. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod dulliau cydweithio ar ddarnau o waith penodol yn ystod y flwyddyn.

**Statutory Investigations and Complaints Panel (section 17–20, Welsh Language Act 1993)**

The Welsh Language Commissioner's Statutory Investigations and Complaints Panel was wound up during 2014–15 and the Panel's responsibilities were transferred to the Management Team.

The Management Team's terms of reference was amended to reflect the new responsibilities. These responsibilities include:

- making statutory recommendations in relation to complaints, investigations and investigation reports in accordance with section 17 of the Welsh Language Act 1993 and section 71 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011;
- deliberating and determining in relation to investigation reports encompassing allegations of interference with an individual's freedom to use the Welsh language;
- considering any complaint or case referred to the Management Team by the Directors.

During 2014–15 the Commissioner commenced 5 statutory investigations under section 17 of the Welsh Language Act 1993 into the following:

- Hywel Dda University Health Board
- Denbighshire County Council
- The Welsh Government
- Cardiff and Vale University Health Board
- Brecon Beacons National Park Authority

During the year the Commissioner completed 2 investigations into the following organizations under Section 115 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, interference with an individual's right to use the Welsh language:

- Swinton Group Ltd
- Betsi Cadwaladr University Health Board

There is further information about the investigations under Strategic Objective 2.

**Working with Ombudsmen and Commissioners**

Sections 20 and 21 of the Measure outline the degrees to which the Welsh Language Commissioner can work with ombudsmen and commissioners. The Measure names the following organizations as those that the Commissioner can work with: Public Services Ombudsman for Wales; Older People's Commissioner for Wales; Children's Commissioner for Wales; Equalities and Human Rights Commission. A Memorandum of Understanding has been agreed with the Children's Commissioner for Wales and the Independent Police Complaints Commission during 2014–15.

The Welsh Language Commissioner meets regularly with the Older People's Commissioner for Wales, Children's Commissioner for Wales and the Public Services Ombudsman for Wales to discuss strategic and operational matters. Officers attend networks and meetings of organizations that are financed by the Welsh Government across the areas of finance, human resources and information technology. Meetings were also held during the year to discuss ways of cooperating on individual pieces of work.

### Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau yw Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhaliwyd hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd yn ystod 2014–15. Bydd hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion yn cael ei gynnal bob 3 blynedd.

### Y fframwaith risg a rheoli

Cynhelir asesiad ffurfiol o'r risgiau a'r gofrestr risg, a arweinir gan y Rheolwr Risg ddwywaith y flwyddyn. Caiff y gofrestr risg ei rhannu yn risgiau strategol a risgiau gweithredol. Yn ogystal mae yna 5 is-gofrestr risg yn cofnodi risgiau mewn meysydd penodol.

Diweddarwyd y gofrestr ym mis Gorffennaf 2014 ac eto ym mis Tachwedd 2014; fe'i hadolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Rhagfyr 2014.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

### Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, nid adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

### Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Dylanwadir ar fy nhrosolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilydd mewnol a'r Tîm Rheoli o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system reolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r archwilydd mewnol, Ktsowenstomas, wedi datgan barn eu bod yn gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd dros ein rheolaeth ariannol fewnol. Yn eu hadroddiad gwneuthpwyd rhai argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'r system reolaeth fewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

#### Meri Huws

Swyddog Cyfrifyddu  
Comisiynydd y Gymraeg

### Capacity to handle risk

The risk management system is led by the Management Team and endorsed by the Audit and Risk Committee. The Senior Finance and Resources Officer is named as Risk Manager for the organization. Induction training on risk awareness was held for new officers during 2014–15. Training for all officers will be held every 3 years.

### The risk and control framework

A formal assessment of the risks and the risk register, lead by the Risk Manager, is undertaken twice each year. The risk register is divided into strategic risks and operational risks. In addition there are 5 sub-registers recording risks in specific areas.

The risk register was updated in July 2014 and also in November 2014; it was reviewed by the Audit and Risk Committee in December 2014.

Relevant risks are included in every paper that is presented to the Management Team and therefore reminds officers to identify and manage the risks.

### Incidents relating to personal data

During the financial year, no incidents were reported relating to personal data. The Commissioner maintains a policy and procedures relating to information security.

### Review of effectiveness

As Accounting Officer, I have responsibility for maintaining a sound system of internal control. My review of the effectiveness of the system of internal control is informed by the work of the internal auditors and the Management Team within the organization who have responsibility for the development and maintenance of the internal control system, and comments made by the Auditor General for Wales in his management letter and other reports.

The internal auditors Ktsowenstomas, have given an opinion that they are able to give substantial assurance as to our internal financial controls. In their report some recommendations were made in order to further improve the internal control systems. I have responded to the recommendations and have agreed to a programme of continuous improvement.

#### Meri Huws

Accounting Officer  
Welsh Language Commissioner

---

## Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff

---

### Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Dymuniad y Comisiynydd yw parhau ar yr un amodau a thelerau.

Telir aelodau'r Panel Cyngori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar yr un raddfa ag aelodau'r Panel Cyngori.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer ei holl swyddogion sy'n cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys swyddogion hŷn) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel gwasanaeth a'i hyd.

Mae rhagor o fanylion am gostau swyddogion ac aelodau anweithredol o bwllgorau wedi eu cynnwys o fewn nodiadau 1.7, 1.9 a 4 y cyfrifon.

---

## Remuneration and Staff Report

---

### Remuneration Policy

The officers of the Welsh Language Commissioner remain on terms and conditions analogous to those of the Welsh Government. The Commissioner wishes to continue on the same terms and conditions.

Members of the Advisory Panel, appointed by Welsh Ministers, are paid in accordance with rates set by the Welsh Government. Members of the Audit and Risk Committee, appointed by the Welsh Language Commissioner, are paid the same rates as the members of the Advisory Panel.

The Welsh Language Commissioner operates a Performance Management Scheme for all officers which is analogous to that used by HM Treasury. Remuneration is not linked to performance.

On the whole officers (including senior officers) are employed in permanent posts. Notice periods vary between four weeks and three months depending on level and length of service.

Further details of officers and non executive committee members' costs are included within notes 1.7, 1.9 and 4 to the accounts.

## Taliadau Cydnabyddiaeth (\*)

(\*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

108

	Cyflog (£)		<sup>1</sup> Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)	
	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14
Meri Huws	98,000	98,000	7,000	2,000	105,000	100,000
Gwenith Price <sup>2</sup>	61,050	61,300	10,000	16,000	71,000	77,000
Enid Lewis <sup>3</sup> (hyd 31/05/2014)	9,250	55,788	11,000	14,000	20,000	70,000
Gwyn Williams <sup>4</sup>	54,361	51,919	—	—	54,000	52,000
Dyfan Siôn <sup>5</sup> (o 17/06/2014)	38,379	—	20,000	—	58,000	—

- <sup>1</sup> Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn\* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad\*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) \*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.
- Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un ai a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.
- <sup>2</sup> Mae'r cyfarwyddwr yn derbyn lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd.
- <sup>3</sup> Mae'r swm a ddyfynnir ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mai 2014. Y swm cywerth â'r flwyddyn lawn yw £55,500.
- <sup>4</sup> Mae'r cyfarwyddwr yn aelod o'r cynllun pensiwn Partneriaeth, trefniant pensiwn rhanddeiliaid.
- <sup>5</sup> Mae'r swm a ddyfynnir ar gyfer y cyfnod 17 Mehefin 2014 hyd 31 Mawrth 2015. Y swm cywerth â'r flwyddyn lawn yw £48,650.

## Remuneration (\*)

(\*) This section is subject to audit

The following sections provide details of the remuneration and pension interests of the Commissioner and directors, having authority or responsibility for directing or controlling the major activities of the Commissioner:

109

	Salary (£)		<sup>1</sup> Pension benefits (to nearest £1,000)		Total (to nearest £1,000)	
	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15	2013-14
Meri Huws	98,000	98,000	7,000	2,000	105,000	100,000
Gwenith Price <sup>2</sup>	61,050	61,300	10,000	16,000	71,000	77,000
Enid Lewis <sup>3</sup> (until 31/05/2014)	9,250	55,788	11,000	14,000	20,000	70,000
Gwyn Williams <sup>4</sup>	54,361	51,919	—	—	54,000	52,000
Dyfan Siôn <sup>5</sup> (from 17/06/2014)	38,379	—	20,000	—	58,000	—

- <sup>1</sup> The value of pension benefits is calculated as follows: (real increase in pension\* x20) + (real increase in any lump sum\*) - (contributions made by member) \*excluding increases due to inflation or any increase or decrease due to a transfer of pension rights.
- This is not an amount which has been paid to an officer by the organization during the year; it is a calculation which uses information from the pension benefit table. These figures can be influenced by many factors e.g. changes in an officer's salary, whether or not they choose to make additional contributions to the pension scheme from their pay and other valuation factors affecting the pension scheme as a whole.
- <sup>2</sup> The director receives an allowance of 10% of salary for deputising for the Welsh Language Commissioner during periods of absence or at the request of the Commissioner.
- <sup>3</sup> The figure quoted is for the period 1 April 2014 to 31 May 2014. The full time equivalent is £55,500.
- <sup>4</sup> The director is a member of the Partnership pension scheme, a stakeholder pension arrangement.
- <sup>5</sup> The figure quoted is for the period 17 June 2014 to 31 March 2015. The full time equivalent is £48,650.



**Cyflog**

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Penodwyd Meri Huws fel Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2012 ar gytundeb saith mlynedd gan Brif Weinidog Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Atodlen 1 Paragraffau 3 (1) a 6 (1). Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

**Trefniadau oddi ar y gyflogres**

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 (2013–14: £0).

**Buddion mewn da**

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EM yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2014–15 i swyddogion hyn (2013–14: £0).

**Canolrif tâl cydnabyddiaeth**

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band tâl y swyddog uchaf ei dâl oedd £95,000–100,000 (2013–14: £95,000–100,000). Roedd hyn 2.88 (2013–14: 2.88) gwaith tâl canolrifol y gweithlu sef £33,900 (2013–14: £33,900).

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf, a hynny ar y dyddiad adrodd.

**Salary**

'Salary' includes gross salary, overtime, and responsibility allowances where applicable. This report is based on accrued payments made by the Welsh Language Commissioner and thus recorded in these accounts.

Meri Huws was appointed Welsh Language Commissioner from 1 April 2012 on a seven year contract by the First Minister in accordance with the Welsh Language (Wales) Measure 2011, Schedule 1, Paragraphs 3 (1) and 6 (1). The Welsh Language Commissioner is a member of the Principal Civil Service Pension Scheme (PCSPS). Any annual increase in the Commissioner's remuneration will take into account the recommendations made to the First Minister by the Senior Salary Review Board (SSRB), a body which advises the Prime Minister and the devolved administrations on public sector pay levels.

**Off-payroll arrangements**

No payments were made to individuals under off-payroll arrangements in the year to 31 March 2015 (2013–14: £0).

**Benefits in kind**

The monetary value of benefits in kind covers any benefits provided by the employer and treated by HM Revenue & Customs as a taxable emolument. There were no benefits in kind made during 2014–15 to senior officers (2013–14: £0).

**Median remuneration**

Reporting bodies are required to disclose the relationship between the remuneration of the highest-paid officer in their organization and the median remuneration of the organization's workforce.

The banded remuneration of the highest-paid officer was £95,000–100,000 (2013–14: £95,000–100,000). This was 2.88 (2013–14: 2.88) times the median remuneration of the workforce which was £33,900 (2013–14: £33,900).

The median total remuneration is calculated using the full time equivalent remuneration (gross salary) as at the reporting date of all officers excluding the highest paid director.

112

Enw a theitl	Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/15	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/15	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/14	Cynnydd gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£100 agosaf
Meri Huws	5–10	0–2.5	131	112	5	—
Gwenith Price	15–20	0–2.5	271	249	6	—
Enid Lewis (hyd 31/05/2014)	15–20 cyfandaliad 10–15	0–2.5 cyfandaliad 0–2.5	263	254	9	—
Gwyn Williams	—	—	—	—	—	8,900
Dyfan Siôn (o 17/06/2014)	10–15	0–2.5	132	116	9	—

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig; unai ar sail 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium** neu **classic plus**) neu 'gynllun holl yrfa' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad 'pwrcasu ariannol' gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 1.5% a 6.85% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**; a rhwng 3.5% ac 8.85% ar gyfer **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premium**, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras megis **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif megis **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei greddydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

113

Name and title	Accrued pension at age as at 31/03/15 and related lump sum	Real increase in pension and lump sum at pension age	Cash Equivalent Transfer Value at 31/03/15	Cash Equivalent Transfer Value at 31/03/14	Real increase in Cash Equivalent Transfer Value	Employer contribution to partnership pension account
	£000	£000	£000	£000	£000	nearest £100
Meri Huws	5–10	0–2.5	131	112	5	—
Gwenith Price	15–20	0–2.5	271	249	6	—
Enid Lewis (until 31/05/2014)	15–20 lump sum 10–15	0–2.5 lump sum 0–2.5	263	254	9	—
Gwyn Williams	—	—	—	—	—	8,900
Dyfan Siôn (from 17/06/2014)	10–15	0–2.5	132	116	9	—

### Civil Service Pensions

Pension benefits are provided through the Civil Service pension arrangements. From 30 July 2007, civil servants may be in one of four defined benefit schemes; either a 'final salary scheme' (**classic**, **premium** or **classic plus**); or a 'whole career scheme' (**nuvos**). These statutory arrangements are unfunded with the cost of benefits met by monies voted by the United Kingdom Parliament each year. Pensions payable under **classic**, **premium**, **classic plus** and **nuvos** are increased annually in line with Pensions Increase legislation. Members joining from October 2002 may opt for either the appropriate defined benefit arrangement or a 'money purchase' stakeholder pension with an employer contribution (**partnership** pension account).

